# Atodiad C

# Asesiadau Effaith
# Ysgol Baladeulyn



| | |
|---|---|
| Asesiad Effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg | 1 |
| Asesiad Effaith debygol ar Drefniadau Teithio | 18 |
| Asesiad Effaith debygol ar y Gymuned | 27 |
| Asesiad Effaith Ieithyddol | 44 |
| Asesiad Effaith Llesiant | 62 |
| Asesiad Effaith Cydraddoldeb | 73 |

# ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR ANSAWDD A SAFONAU ADDYSG – YSGOL BALADEULYN

## Mai 2026

# 1. CYFLWYNIAD

Mae Ysgol Baladeulyn yn ysgol gymunedol wedi ei lleoli ym mhentref Nantlle, sydd rhyw dair milltir o Benygroes, ac sydd yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3-11 oed. Mae gostyngiad wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Baladeulyn dros y blynyddoedd diwethaf. Erbyn hyn, Ionawr 2026, dim ond 6 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 a 2 dysgwyr Meithrin sy'n mynychu'r ysgol.

Yn ei gyfarfod ar 11 Chwefror 2025, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd roi caniatâd i'r Adran Addysg
*"gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda chorff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill Ysgol Baladeulyn yn sgil pryderon ynghylch niferoedd yr ysgol, i alluogi llunio ystod o opsiynau posibl yn ymwneud a dyfodol yr ysgol."*

Yn unol â phenderfyniad y Cabinet (11 Chwefror 2025), sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol Baladeulyn (PAY) gan wahodd y Corff Llywodraethol, rhieni a staff a'r Aelod Lleol i ymuno â'r panel a chymryd rhan yn y drafodaeth. Cynhaliwyd tri cyfarfod PAY rhwng Mawrth 2025 a Gorffennaf 2025 i drafod ystod o opsiynau i geisio ymateb i'r prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu.

Ar 14 Hydref 2025, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar gynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026, a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018, sydd yn cynnwys 'Rhagdybiaeth yn erbyn cau ysgolion gwledig', mae angen gwneud asesiad ar yr effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg ar unrhyw opsiwn rhesymol a ellir datrys y prif heriau y mae'r ysgol yn ei wynebu. At ddiben y Cod, mae Ysgol Baladeulyn wedi ei dynodi fel 'Ysgol Wledig'.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddarparu addysg o'r ansawdd gorau posibl a fydd yn rhoi'r profiadau, y sgiliau a'r hyder i blant y Sir ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn.

Mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth uchel i ddarparu'r profiadau dysgu gorau posibl - ar gyfer pob dysgwr o fewn y Sir, gan sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang, yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol sy'n eu hysgogi i ddysgu a deall, a fydd yn arwain at wella safonau.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 10 Rhagfyr a 28 Ionawr, a derbyniwyd 30 ymateb i'r ymgynghoriad.

# 2. CRYNODEB

Bu i Ysgol Baladeulyn gael ei harolygu ddiwethaf gan Estyn yn 2017 ble daethpwyd i'r casgliad fod perfformiad presennol yr ysgol yn 'Dda'.

Mae crynodeb isod o arolygon diwethaf Ysgol Baladeulyn, yr ysgolion cyfagos, neu ysgolion sydd yn destun unrhyw un o'r opsiynau dan ystyriaeth ar gyfer dyfodol Ysgol Baladeulyn.

| Ysgol | Blwyddyn yr arolwg | Safonau | Lles ac agweddau at ddysgu | Addysgu a phrofiadau dysgu | Gofal, cymorth ac arweiniad | Arweinyddiaeth a rheolaeth |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Baladeulyn** | 2017 | Da | Da | Da | Da | Da |
| **Nebo** | 2017 | Da | Da | Da | Da | Da |
| **Bro Llifon** | 2018 | Da | Da | Da | Da | Da |
| **Bro Lleu** | 2023 | Fframwaith arolygu newydd | | | | |
| **Talysarn** | 2025 | Fframwaith arolygu newydd | | | | |
| **Brynaerau** | 2025 | Fframwaith arolygu newydd | | | | |
| **Llanllyfni** | 2025 | Fframwaith arolygu newydd | | | | |

## 3. YR OPSIYNAU DAN SYLW

- *Dim newid – parhau gyda'r sefyllfa presennol.*

Noder, er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r opsiwn 'Gwneud dim' wedi ei gynnwys yn yr asesiad at ddiben cymharu.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)*

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Gan ystyrir Ysgol Talysarn fel yr ysgol cyfagos i ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn, byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng 3 ysgol, gan fod Ysgol Talysarn eisoes wedi ffedereiddio gydag Ysgol Brynaerau.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol arall gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn*

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Gan ystyrir Ysgol Talysarn fel yr ysgol cyfagos i ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn, byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol rhwng 3 ysgol gan fod Ysgol Talysarn eisoes wedi ffedereiddio gydag Ysgol Brynaerau.

Yn ogystal â ffederaleiddio, byddai'r opsiwn yma hefyd yn golygu ychwanegu lleoliad ar gyfer uned ADY yn Ysgol Baladeulyn.

- *Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i ddysgwyr y dalgylch yn Ysgol Talysarn.

- *Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn – Ysgol aml-safle*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu uno nifer o ysgolion lleol, drwy gau'r ysgolion a sefydlu un ysgol aml-safle fyddai'n cynnwys safle Ysgol Baladeulyn. Byddai'r opsiwn yn galluogi'r posibilrwydd o rannu adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb safle ysgol ym mhentref Nantlle trwy sefydlu ysgol aml-safle, dan arweiniad pennaeth ac un corff llywodraethol.

- *Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gydag Ysgol Baladeulyn gan ychwanegu ardal benodol arbenigol i blant gyda anghenion dysgu ychwanegol ar safle'r ysgol.

- *Cynnwys uned iaith ar safle Ysgol Baladeulyn*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gydag Ysgol Baladeulyn gan ychwanegu Uned Iaith ar safle'r ysgol. Byddai'n cynnig gwasanaeth trochi i'r plant yn y Gymraeg sydd ei angen cyn ymuno a'u hysgolion dewisol yn llawn amser.

Opsiynau amgen rhesymol a ystyriwyd yn dilyn yr ymgynghoriad statudol:

- *Ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd 'hybrid' prif ffrwd ac ADY er mwyn cynnig darpariaeth arbenigol i'r ardal leol.*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd 'hybrid' prif ffrwd sydd yn cynnwys addysg arbenigol i blant gyda anghenion dysgu ychwanegol ar safle'r ysgol. Byddai'r opsiwn hyn yn cynnig addysg hybrid i ddysgwyr cynradd yn yr ardal leol i fynychu Ysgol Baladeulyn fel ysgol prif ffrwd a/neu gyda mynediad i ddarpariaeth addysg arbenigol ADY.

## 4. ASESIAD O EFFAITH TEBYGOL AR SAFONAU AC ANSAWDD ADDYSG

*Rydym wedi defnyddio arolygon diweddaraf Estyn ar yr ysgolion perthnasol fel meini prawf ar gyfer asesu y gwahanol opsiynau ar gyfer dyfodol addysg ar gyfer dalgylch Ysgol Baladeulyn.*

***OPSIWN 1: GWNEUD DIM - PARHAU GYDA'R SEFYLLFA BRESENNOL***

Byddai'r opsiwn yma yn golygu dim newid a bydda Ysgol Baladeulyn yn parhau fel ac y mae.

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Dim newid. | Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | Dim newid. | Niwtral |
| Profiadau dysgu ac addysgu | Dim newid. | Niwtral |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Dim newid. | Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Dim newid. | Niwtral |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Dim newid. | Niwtral |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Dim newid. | Niwtral |

## *OPSIWN 2: FFEDERALEIDDIO GYDAG YSGOL GYFAGOS (YSGOL TALYSARN)*

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag Ysgol Talysarn. Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer dangosyddion safonau Ysgol Baladeulyn yn 'Dda'. Yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn fod *"gynnydd cryf ym medrau bron bob disgybl, gan gynnwys y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel."*. O ganlyniad, deuir i'r casgliad mai niwtral fyddai'r effaith ar safonau o ffedereiddio Ysgol Talysarn gydag Ysgol Baladeulyn. | Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Baladeulyn ar gyfer y maes arolygu 'Lles ac agweddau at ddysgu' yn 'Dda'. Roedd adroddiad arolwg Estyn diwethaf Ysgol Talysarn yn nodi *"mae'r ffederasiwn yn gymuned ofalgar a theuluol lle mae lles a chynnydd pob disgybl wrth wraidd y ddarpariaeth... O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu hysgogi i ymroi o'u gorau."* Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, a gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau fel endid ar wahân o dan yr opsiwn hwn, deuir i'r casgliad mai effaith niwtral a ragwelir ar y maes yma o ffedereiddio Ysgol Baladeulyn gydag Ysgol Talysarn. | Niwtral |
| Profiadau dysgu ac addysgu | 'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Addysgu a phrofiadau dysgu' ar gyfer Ysgol Baladeulyn yn 2017. Nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn *"maent yn darparu ystod o brofiadau diddorol a chyfoethog sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso eu medrau, a dwysáu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar draws y meysydd dysgu."* O ganlyniad, rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n cael effaith niwtral ar brofiadau dysgu ac addysgu. | Niwtral |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | 'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Gofal, cymorth ac arweiniad' yn Ysgol Baladeulyn yn eu harolwg diwethaf yn 2017. Nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn *"Mae'r berthynas o barch a charedigrwydd rhwng staff a disgyblion yn gryf, sy'n cyfrannu at amgylchedd diogel ac ysgogol lle mae disgyblion yn barod i ddysgu"* . Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, a gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau fel endid ar wahân o dan yr opsiwn hwn, deuir i'r casgliad mai effaith niwtral a ragwelir ar y maes yma o ffedereiddio gydag ysgol gyfagos. | Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Nodwyd yn adroddiad Estyn diwethaf Ysgol Baladeulyn fod yr arweinyddiaeth yn yr ysgol yn 'Dda' tra nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn bod y *"pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir ac ysbrydoledig, ac mae'r staff yn rhannu a gweithredu ei weledigaeth yn effeithiol."* . Yn ogystal, byddai'r model ffederaleiddio gydag ysgol Talysarn yn cynnig cyfleoedd i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth Ysgol Baladeulyn ac yn gyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. O ganlyniad, deuir i'r casgliad y byddai arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael effaith bositif neu o leiaf niwtral o weithredu'r opsiwn ffedereiddio. | Positif/Niwtral |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 ym mhob ysgol yng Ngwynedd. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai effaith yr opsiwn yma ar y maen prawf hwn. | Niwtral |

| | | |
|---|---|---|
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau. Yn ogystal, roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', a chyfeirir yn adroddiad Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn bod *"gynnydd cryf ym medrau bron bob disgybl, gan gynnwys y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel.".* Yn seiliedig ar wybodaeth yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o weithredu'r opsiwn yma. | Niwtral |

***OPSIWN 3: FFEDERALEIDDIO GYDAG YSGOL ARALL GAN YCHWANEGU ARDAL ARBENIGOL AR GYFER PLANT AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YN YSGOL BALADEULYN***

| **Meini Prawf Effaith** | **Disgrifiad** | **Statws o'r effaith a'r gwaith** |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma drwy ffederaleiddio gydag Ysgol Talysarn. Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer dangosyddion safonau Ysgol Baladeulyn yn 'Dda'. Yn ogystal, nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn fod *"gynnydd cryf ym medrau bron bob disgybl, gan gynnwys y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel."* O ganlyniad, deuir i'r casgliad mai niwtral fyddai'r effaith ar safonau o weithredu'r opsiwn yma. | Niwtral |
| Lles ac agweddau at ddysgu | Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer Lles yn Ysgol Baladeulyn yn 'Dda'. Roedd adroddiad arolwg Estyn diwethaf Ysgol Talysarn yn nodi bod y*"ffederasiwn yn gymuned ofalgar a theuluol lle mae lles a chynnydd pob disgybl wrth wraidd y ddarpariaeth... O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu hysgogi i ymroi o'u gorau."* . Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y maes yma trwy addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn. | Niwtral |
| Profiadau dysgu ac addysgu | 'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Addysgu a phrofiadau dysgu' ar gyfer Ysgol Baladeulyn yn 2017. Nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn *" maent yn darparu ystod o brofiadau diddorol a chyfoethog sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso eu medrau, a dwysáu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar draws y meysydd dysgu."* O ganlyniad, rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n cael effaith niwtral ar brofiadau dysgu ac addysgu. | Niwtral |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | 'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Gofal, cymorth ac arweiniad' yn Ysgol Baladeulyn yn eu harolwg diwethaf yn 2017. Nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn *"Mae'r berthynas o barch a charedigrwydd rhwng staff a disgyblion yn gryf, sy'n cyfrannu at amgylchedd diogel ac ysgogol lle mae disgyblion yn barod i ddysgu"*. O ganlyniad, rhagwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma'n cael effaith niwtral ar ofal, cymorth ac arweiniad. | Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Nodwyd yn adroddiad Estyn diwethaf Ysgol Baladeulyn fod yr arweinyddiaeth yn yr ysgol yn 'Dda'. Nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn bod y *"pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir ac ysbrydoledig, ac mae'r staff yn rhannu a gweithredu ei gweledigaeth yn effeithiol."* Yn ogystal, byddai'r model ffederaleiddio gydag Ysgol Talysarn yn cynnig cyfleoedd i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth Ysgol Baladeulyn ac yn gyfle i rannu arferion da rhwng y ddwy ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. O ganlyniad, deuir i'r casgliad y byddai arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael effaith bositif neu o leiaf niwtral o weithredu'r opsiwn ffedereiddio. | Positif/ Niwtral |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 ym mhob ysgol yng Ngwynedd. Rhagwelir y byddai'r opsiwn yn cael effaith gadarnhaol ar y meini prawf hwn gan y byddai'n ymestyn darpariaeth ADY yn yr ardal. | Positif |

| | | |
|---|---|---|
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau. Yn ogystal, roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', a nodwyd ym mhrif canfyddiadau adroddiad Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn bod *"gynnydd cryf ym medrau bron bob disgybl, gan gynnwys y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel.".* Yn seiliedig ar wybodaeth yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o weithredu'r opsiwn yma. Fodd bynnag, er na ragwelir y byddai'r uned ADY yn effeithio ar yr ysgol, rhagwelir y gallai'r adnodd newydd gael effaith bositif ar y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr gydag ADY yn yr ardal. | Positif/ Niwtral |

***OPSIWN 4: CAU YSGOL BALADEULYN A CHYNNIG LLE I'R DYSGWYR MEWN YSGOL GYFAGOS (YSGOL TALYSARN)***

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion safonau Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', a nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn fod *"gynnydd cryf ym medrau bron bob disgybl, gan gynnwys y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel."*. Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, codwyd nifer o sylwadau ynghylch profiadau dysgwyr ac ansawdd addysg yn Ysgol Baladeulyn. Pwysleisir fod yr ysgol yn darparu darpariaeth addysgol o ansawdd uchel trwy'r Gymraeg mewn amgylchedd diogel, meithringar a chefnogol, lle mae dysgwyr yn hapus, yn ffynnu ac yn derbyn sylw unigol wedi'i deilwra i'w hanghenion. Wrth asesu'r effaith debygol, ystyrir y dystiolaeth arolygu berthnasol ar gyfer y ddwy ysgol, ac ni ragwelir y byddai safonau na chynnydd dysgwyr yn dirywio o ganlyniad i addysgu yn Ysgol Talysarn. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn drwy addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn. | Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer Lles yn Ysgol Baladeulyn yn 'Dda'. Roedd adroddiad arolwg Estyn diwethaf Ysgol Talysarn yn nodi bod y*"ffederasiwn yn gymuned ofalgar a theuluol lle mae lles a chynnydd pob disgybl wrth wraidd y ddarpariaeth... O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu hysgogi i ymroi o'u gorau."* . Mynegwyd pryderon yn ystod yr ymgynghoriad am effaith negyddol posibl newid ysgol ar lesiant, hyder ac agweddau at ddysgu rhai dysgwyr, yn enwedig rhai sydd yn naturiol swil neu ddi-hyder. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod pontio'n gyfnod sensitif, ond y byddai trefniadau pontio sydd wedi'u cynllunio'n ofalus, gyda chefnogaeth briodol, yn gallu lliniaru effeithiau negyddol posibl ar lesiant a dysgu. Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arolygon hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y maes yma trwy addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn. | Niwtral |
| Profiadau dysgu ac addysgu | 'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Addysgu a phrofiadau dysgu' yn arolwg Estyn diwethaf Ysgol Baladeulyn yn 2017. Nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn *"maent yn darparu ystod o brofiadau diddorol a chyfoethog sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso eu medrau, a dwysau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ar draws y meysydd dysgu"*. Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, pwysleisiwyd manteision ysgol fach, gan gynnwys perthnasoedd agos rhwng staff a dysgwyr, cyfleoedd cyfartal i bob plentyn gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Hefyd, nodwyd y gallu i feithrin hyder, cyfrifoldeb a sgiliau bywyd drwy rolau a chyfrifoldebau ymarferol. Er bod y Cyngor yn nodi'r safbwyntiau hyn, nodir hefyd bod ysgolion mwy yn gallu cynnig ystod ehangach o brofiadau dysgu, mynediad at adnoddau ac arbenigedd staff, a chyfleoedd i ddysgu mewn grwpiau mwy a gyda chyfoedion oed-berthnasol, sy'n cefnogi'r asesiad o effaith gadarnhaol ar y maes hwn pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu. | Positif |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | 'Da' oedd canlyniad y dangosydd 'Gofal, cymorth ac arweiniad' yn Ysgol Baladeulyn. Nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn *"Mae'r berthynas o barch a charedigrwydd rhwng staff a disgyblion yn gryf, sy'n cyfrannu at amgylchedd diogel ac ysgogol lle mae disgyblion yn barod i ddysgu"*. O ganlyniad, bernir y byddai'r opsiwn yn cael effaith niwtral ar y maes hwn. | Niwtral |

| | | |
|---|---|---|
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Nodwyd yn adroddiad Estyn diwethaf fod arweinyddiaeth a'r rheolaeth Ysgol Baladeulyn yn 'Dda'. Nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn bod y *"pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir ac ysbrydoledig, ac mae'r staff yn rhannu a gweithredu ei weledigaeth yn effeithiol."* Nodir bod yn sgil strwythur staffio Ysgol Baladeulyn, mae'r pennaeth yn gorfod dysgu mwyafrif o'i amser. Mae strwythur staffio Ysgol Talysarn yn galluogi amserlen di-gyswllt i'r pennaeth. O ganlyniad, deuir i'r casgliad y byddai arweinyddiaeth a rheolaeth yn cael effaith bositif neu o leiaf niwtral o weithredu'r opsiwn yma. | Positif/ Niwtral |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, codwyd pryderon am effaith negyddol y cynnig ar rai grwpiau o ddysgwyr, yn benodol dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol dwys, o drosglwyddo i ysgol newydd sydd yn fwy ac yn anghyfarwydd iddynt. Cwestiynwyd, hefyd, os fydd parhad cymorth megis aelod o staff cefnogi ac oriau cefnogaeth i ddysgwr ADY yn trosglwyddo i'r ysgol amgen i liniaru'r effaith o drosglwyddo i ysgol newydd. Nodwyd bod rhieni wedi dewis Ysgol Baladeulyn yn benodol oherwydd y gofal, ac amgylchedd addysgu a chefnogaeth bersonol mae'r dysgwyr yn ei dderbyn mewn ysgol llai. Mae'r Cyngor yn nodi'r y pryderon hwn. Fel y nodir yn Llawlyfr Rhieni Gwynedd 2025/26, mae gan ddysgwyr ADY hawl i barhau i dderbyn y cymorth sydd wedi'i nodi yn eu Cynllun Datblygu Unigol, ac mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n parhau hyd yn oed pan fo trefniadau ysgol yn newid. Pe byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, byddai'r awdurdod a'r ysgol amgen yn cydweithio'n agos â'r ysgol sy'n cau, gyda'r dysgwyr a'u teuluoedd, i sicrhau trosglwyddiad esmwyth ac i gefnogi'r dysgwyr wrth ymgartrefu yn eu hysgolion newydd. Mae'r Cyngor yn ymrwymo i sicrhau bod unrhyw drefniadau pontio yn rhoi blaenoriaeth i anghenion unigol, gan gynnwys i ddysgwyr bregus a dysgwyr gyda anghenion dysgu ychwanegol, pe byddai'r ysgol yn cau.<br><br>Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 ym mhob ysgol yng Ngwynedd. Wrth gynllunio staffio (e.e. rôl y CADY) a'r map darpariaeth, mae'r gofyn ar ysgolion yn heriol, ac mae hynny yn dod yn fwy amlwg wrth ystyried y gofyn ar ysgolion llai. Mewn ysgolion mwy mae amodau'r cydlynydd anghenion ychwanegol yn well, ac mae cyfarch y gofyn statudol yn haws yn sgil hynny. Yn ogystal, mae ymateb i angen y dysgwyr hefyd yn haws mewn ysgolion mwy gan y gallent efallai cynnal grŵp ymyrraeth i dargedu anghenion penodol. Mae map darpariaeth yn fwy eang mewn ysgolion mwy er mwyn ymateb i'r gofyn. O ganlyniad, rhagwelir mai positif fyddai effaith yr opsiwn yma ar y maen prawf hwn. | Positif |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', a nodwyd ym mhrif canfyddiadau adroddiad Estyn diweddaraf Ysgol Talysarn bod *"gynnydd cryf ym medrau bron bob disgybl, gan gynnwys y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai o aelwydydd incwm isel"*. Yn seiliedig ar wybodaeth yr arolygon yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o addysgu dysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn yn Ysgol Talysarn. O ganlyniad, rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth yn yr ysgol amgen yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar hyn o bryd yn Ysgol Baladeulyn, fan lleiaf. | Niwtral |

***OPSIWN 5: UNO YSGOLION LLEOL ER MWYN CEFNOGI A CHYNNAL YSGOL BALADEULYN - YSGOL AML-SAFLE***

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion safonau Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer ysgolion cynradd cyfagos eraill hefyd (ysgolion cynradd dalgylch Dyffryn Nantlle) yn 'Dda' neu gyda chanfyddiadau cryf. Nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Llanllyfni fod *"cynnydd da o ran datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau sy'n briodol i'w hoedrannau a'u cam datblygu'"*. Nodwyd prif ganfyddiadau Ysgol Brynaerau a Ysgol Talysarn (ffederasiwn Talaerau) fod athrawon *"yn darparu cyfleoedd pwrpasol i bron bob un gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol mewn ffyrdd ystyrlon"*. Nodwyd prif ganfyddiadau Ysgol Bro Lleu fod *"rhan fwyaf o ddisgyblion yn siarad yn hyderus, yn gwrando'n dda ar ei gilydd ac oedolion ac yn ymateb yn frwd i'w gwaith"*. Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn. Gallai'r opsiwn ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas â'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. | Niwtral/ Positif |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion llesiant ac agweddau at ddysgu Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer yr ysgolion cyfagos (dalgylch Dyffryn Nantlle) hefyd yn 'Dda' neu gyda chanfyddiadau cryf. Nodwyd prif ganfyddiadau arolwg Ysgol Llanllyfni fod "*yr ysgol yn gymuned ddysgu gynhwysol sy'n meithrin gwerthoedd Cymreictod, cwrteisi a pharch. Mae disgyblion yn hapus i fynychu'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno*" gyda phrif ganfyddiadau arolwg Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn (ffederasiwn Talaerau) yn nodi eu bod gyda "*gymuned gynnes a gofalgar lle mae lles a chynnydd disgyblion yn greiddiol i'w ethos*". Nodwyd prif ganfyddiadau Ysgol Bro Lleu "*Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol ac yn dangos aeddfedrwydd yn y ffordd maent yn goresgyn heriau ac yn datblygu gwytnwch*". Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn gan fod asesiad Estyn yn gyson ar gyfer y mwyafrif o'r ysgolion. Gallai'r opsiwn ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas a'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. | Niwtral/ Positif |
| Profiadau dysgu ac addysgu | Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion profiadau addysgu a dysgu Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer yr ysgolion cyfagos (dalgylch Dyffryn Nantlle) hefyd yn 'Dda' neu gyda chanfyddiadau cryf. Nodwyd prif ganfyddiadau arolwg Ysgol Llanllyfni bod *"cydweithio effeithiol rhwng staff yn arwain at gynllunio profiadau dysgu a chwarae ysgogol... Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynnig cyfleoedd cyson i ddisgyblion weithio'n annibynnol ac ar y cyd*" gyda phrif ganfyddiadau Ysgol Brynaerau a Ysgol Talysarn (ffederasiwn Talaerau) yn nodi *"Mae athrawon yn darparu cwricwlwm eang a chyfoethog sy'n ymgysylltu a diddordebau'r disgyblion*". Nodwyd prif ganfyddiadau Ysgol Bro Lleu "*Mae'r ysgol yn cynnig cwricwlwm cyfoethog sy'n adlewyrchu ei natur a'i chyd-* | Niwtral/ Positif |

| | | |
|---|---|---|
| | *destun lleol. Mae'r athrawon yn casglu syniadau gan y disgyblion, y rhieni a'r gymuned leol wrth greu cwricwlwm perthnasol i'r disgyblion*". Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn gan fod asesiad Estyn yn gyson ar gyfer y mwyafrif o'r ysgolion. Gallai'r opsiwn ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas a'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. | |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion arweiniad a chymorth gofal Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer ysgolion cyfagos (dalgylch Dyffryn Nantlle) hefyd yn 'Dda' neu gyda chanfyddiadau cryf. Nodwyd ym mhrif ganfyddiadau adroddiad arolwg Estyn diweddaraf Ysgol Llanllyfni fod *"staff yn ymroi i gynnal safonau uchel o ofal a lles mewn amgylchedd cartrefol a chefnogol."* gydag arolwg Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn (ffederasiwn Talaerau) yn nodi *"Mae'r berthynas o barch a charedigrwydd rhwng staff a disgyblion yn gryf, sy'n cyfrannu at amgylchedd diogel ac ysgogol lle mae disgyblion yn barod i ddysgu"*. Nodwyd prif ganfyddiadau Ysgol Bro Lleu "*Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a chartrefol. Mae'r staff yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi, a pharch yn llwyddiannus*". Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn gan fod asesiad Estyn yn gyson ar gyfer y mwyafrif o'r ysgolion. Gallai'r opsiwn ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas a'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. | Niwtral/ Positif |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer y dangosyddion arweinyddiaeth a rheolaeth Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', tra roedd canlyniad arolwg Estyn diweddaraf ar gyfer ysgolion cyfagos (Dalgylch Dyffryn Nantlle) hefyd yn 'Dda' neu gyda chanfyddiadau cryf. Nodwyd ym mhrif ganfyddiadau arolwg estyn Ysgol Llanllyfni *"Mae'r pennaeth yn darparu arweiniad clir a doeth, gan werthfawrogi cyfraniad pawb... Mae trefniadau hunanwerthuso a sicrhau ansawdd arweinwyr yn drylwyr ac effeithiol"* gydag arolwg Ysgol Brynaerau ac Ysgol Talysarn (ffederasiwn Talaerau) yn nodi *"Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth glir ac ysbrydoledig, ac mae'r staff yn rhannu a gweithredu ei weledigaeth yn effeithiol".* Nodwyd prif ganfyddiadau Ysgol Bro Lleu *"Mae arweinyddiaeth gadarn, ddeallus ac effeithiol y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol".* Yn seiliedig ar hyn, deuir i'r casgliad y byddai effaith niwtral ar y meini prawf hwn gan fod asesiad Estyn yn gyson ar gyfer y mwyafrif o'r ysgolion. Gallai'r opsiwn ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas a'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. | Niwtral/ Positif |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Darperir cefnogaeth i grwpiau agored i niwed gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn unol â pholisi'r Awdurdod, a gofynion y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (Cymru) 2018 fel ym mhob ysgol yng Ngwynedd. Gallai'r opsiwn ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella'r ddarpariaeth mewn perthynas a'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da, arbenigedd a phrofiadau rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. | Niwtral/ Positif |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r | Roedd canlyniad arolwg Estyn ar gyfer 'Safonau' Ysgol Baladeulyn yn 'Dda', ac yr oedd canlyniad arolygon yr ysgolion cyfagos yn Nalgylch Dyffryn Nantlle | Niwtral/ Positif |

| | | |
|---|---|---|
| dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | hefyd yn cyfateb i safonau Ysgol Baladeulyn. Yn seiliedig ar wybodaeth yr arolygon yma, ni ragwelir unrhyw effaith ar safonau dysgwyr o weithredu'r opsiwn yma. Gallai'r opsiwn ysgol aml-safle gynnig cyd-destun mwy effeithiol i arweinwyr, a thrwy hynny, gynnig cyfle i wella ddarpariaeth mewn perthynas a'r meini prawf hwn. Rhagwelir cyfleoedd i rannu arferion da rhwng safleoedd yr ysgol a phosibiliadau o wneud gwell defnydd o adnoddau. | |

**OPSIWN 6: YCHWANEGU ARDAL ARBENIGOL AR GYFER PLANT AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YN YSGOL BALADEULYN**

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Gan y byddai'r uned anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | Gan y byddai'r uned anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Profiadau dysgu ac addysgu | Gan y byddai'r uned anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Gan y byddai'r uned anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Gan y byddai'r uned anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Gan y byddai'r uned anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. Fodd bynnag, er na ragwelir y byddai'r uned arbenigol yn effeithio ar yr ysgol, rhagwelir y gallai'r adnodd newydd gael effaith bositif ar y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr gydag ADY yn yr ardal. | Positif |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Gan y byddai'r uned anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. Fodd bynnag, er na ragwelir y byddai'r uned ADY yn effeithio ar yr ysgol, rhagwelir y gallai'r adnodd newydd gael effaith bositif ar y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr gydag ADY yn yr ardal. | Positif |

*OPSIWN 7: CYNNWYS UNED IAITH AR SAFLE YSGOL BALADEULYN*

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Profiadau dysgu ac addysgu | Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Gan y byddai'r uned iaith yn gweithredu'n annibynnol o Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. | Niwtral |

***OPSIWN 8: AIL-GATEGOREIDDIO YSGOL BALADEULYN FEL YSGOL GYNRADD 'HYBRID' PRIF-FFRWD AC ADY ER MWYN CYNNIG DARPARIAETH ARBENIGOL I'R ARDAL LEOL***

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau | Gan y byddai'r darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu mewn ffurf hybrid gyda darpariaeth prif ffrwd yn Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad prif ffrwd presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Llesiant ac agweddau at ddysgu | Gan y byddai'r darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu mewn ffurf hybrid gyda darpariaeth prif ffrwd yn Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad prif ffrwd presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Profiadau dysgu ac addysgu | Gan y byddai'r darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu mewn ffurf hybrid gyda darpariaeth prif ffrwd yn Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad prif ffrwd presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Gofal, cymorth ac arweiniad | Gan y byddai'r darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu mewn ffurf hybrid gyda darpariaeth prif ffrwd yn Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad prif ffrwd presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Arweinyddiaeth a rheolaeth | Gan y byddai'r darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu mewn ffurf hybrid gyda darpariaeth prif ffrwd yn Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad prif ffrwd presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) | Gan y byddai'r darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu mewn ffurf hybrid gyda darpariaeth prif ffrwd yn Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad prif ffrwd presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. Fodd bynnag, er na ragwelir y byddai'r darpariaeth arbenigol yn effeithio ar ddarpariaeth prif ffrwd yr ysgol, rhagwelir y gallai mynediad i ddarpariaeth arbenigol gael effaith bositif ar y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr gydag ADY yn yr ardal. | Positif |
| Darpariaeth sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn sydd ar gael i'r dysgwyr ar y pryd (gan gynnwys rhai gydag ADY) | Gan y byddai'r darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol yn gweithredu mewn ffurf hybrid gyda darpariaeth prif ffrwd yn Ysgol Baladeulyn, ni ragwelir unrhyw newid i weithrediad presennol Ysgol Baladeulyn o weithredu'r opsiwn yma. Fodd bynnag, er na ragwelir y byddai'r darpariaeth arbenigol yn effeithio ar ddarpariaeth prif ffrwd yr ysgol, rhagwelir y gallai mynediad i ddarpariaeth arbenigol gael effaith bositif ar y ddarpariaeth sydd ar gael i ddysgwyr gydag ADY yn yr ardal. | Positif |

# 4. CASGLIAD

Mae'r asesiad diweddaraf hwn o'r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg wedi ystyried y sylwadau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, ynghyd ag asesiad o'r ystod lawn o opsiynau amgen rhesymol, gan gynnwys yr opsiynau ychwanegol a gynigiwyd gan ymgynghorai. Mae'r Cyngor yn nodi'r sylwadau a fynegwyd ynghylch cryfderau darpariaeth presennol Ysgol Baladeulyn, gan gynnwys manteision dosbarthiadau bach, a'r gefnogaeth a ddarperir i ddysgwyr bregus neu gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Wrth ystyried opsiynau amgen rhesymol megis ail-gategoreiddio'r ysgol i fod yn ysgol 'hybrid' prif lif ac ADY, trefniadau ffederaleiddio, ac ychwanegu unedau arbenigol ar safle'r ysgol, dengys yr asesiad y gallai'r rhain gael effaith niwtral neu rannol gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg mewn cyd-destunau penodol.

Ar sail cymharu canfyddiadau arolygiadau Estyn a'r dystiolaeth a gyflwynwyd drwy'r asesiad, deuir i'r casgliad bod y ddarpariaeth addysgol a gynigir yn Ysgol Talysarn yn cyfateb i safon yr addysg a ddarperir yn Ysgol Baladeulyn ar hyn o bryd, fan lleiaf. Yn ogystal, nodir bod niferoedd dysgwyr yr ysgol amgen, Ysgol Talysarn, yn galluogi cyfleoedd ehangach i addysgu dysgwyr mewn grwpiau oed berthnasol, gyda chyfoedion oed-berthnasol, gan ehangu profiadau dysgu a chynnig manteision posibl i brofiadau addysgu a dysgu.

O ganlyniad, dengys yr asesiad mai niwtral/rhannol bositif yw'r effaith debygol ar ansawdd a safonau addysg o weithredu'r cynnig arfaethedig i gau Ysgol Baladeulyn a darparu addysg i'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn.

# ASESIAD EFFAITH TEBYGOL AR DREFNIADAU TEITHIO –

# YSGOL BALADEULYN

## Mai 2026

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1 Cefndir

Mae Ysgol Baladeulyn yn ysgol gymunedol wedi ei lleoli ym mhentref Nantlle, sydd rhyw dair milltir o Benygroes, ac sydd yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3-11 oed. Mae gostyngiad wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Baladeulyn dros y blynyddoedd diwethaf. Erbyn hyn, Ionawr 2026, dim ond 6 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 ac 2 dysgwyr Meithrin sy'n mynychu'r ysgol.

Yn eu cyfarfod ar 11 Chwefror 2025, bu i'r Cabinet gefnogi argymhelliad i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda rhanddeiliaid Ysgol Baladeulyn er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol. Rhwng Mawrth a Gorffennaf 2025, cynhaliwyd 3 cyfarfod lleol gyda rhan-ddeiliaid Ysgol Baladeulyn ymhle cynigiwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau.

Ar 14 Hydref 2025, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar gynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026, a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 10 Rhagfyr a 28 Ionawr, a derbyniwyd 30 ymateb i'r ymgynghoriad.

## 1.2 Polisi Cludiant Cyngor Gwynedd

Mae strategaeth '*Addysg Gynradd o'r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd*' yn anelu at gyfyngu teithio o'r cartref i'r ysgol i daith un ffordd sydd heb fod yn fwy na 30 munud.

Mae Cyngor Gwynedd yn darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol yn eu dalgylch, neu'r ysgol agosaf (nid yw'n cynnwys dysgwyr meithrin). Disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd. Mae'r polisi cludiant i'w weld yn y llawlyfr i rieni: [Gwybodaeth i Rieni]

# 2. ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL POB OPSIWN AR DREFNIADAU TEITHIO

### 2.1 Nodir isod effaith tebygol pob opsiwn ar drefniadau teithio:

- *Gwneud dim - parhau gyda'r sefyllfa bresennol*

  Byddai'r opsiwn yma yn golygu na fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol yn nalgylch Ysgol Baladeulyn.

  **Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.**

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)*

  Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

  Gan ystyrir Ysgol Talysarn fel yr ysgol gyfagos i ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn, byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng 3 ysgol, gan fod Ysgol Talysarn eisoes wedi ffedereiddio gydag Ysgol Brynaerau.

  **Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Baladeulyn, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn, a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Ysgol Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.**

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn.*

  Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

  Gan ystyrir Ysgol Talysarn fel yr ysgol gyfagos i ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn, byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol rhwng 3 ysgol gan fod Ysgol Talysarn eisoes wedi ffedereiddio gydag Ysgol Brynaerau.

  Yn ogystal â ffederaleiddio, byddai'r opsiwn yma hefyd yn golygu ychwanegu lleoliad ar gyfer uned ADY yn Ysgol Baladeulyn.

  **Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Baladeulyn, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY.**

- *Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)*

  Byddai'r opsiwn yma'n golygu cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn.

  Mae Ysgol Talysarn wedi ei lleoli 2.5 milltir o Ysgol Baladeulyn. Dyma'r ysgol ddaearyddol agosaf at Ysgol Baladeulyn.

  **Byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar drefniadau teithio dysgwyr Ysgol Baladeulyn, gan y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu yn Ysgol Talysarn. Byddai angen darparu cludiant i ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn i Ysgol Talysarn, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd. Rhagwelir costau cludiant ychwanegol (amcan gost) rhwng £17,000 hyd at £30,000 y flwyddyn. Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol, na cherdded neu feicio ar lwybrau peryglus i'r ysgol.**

- *Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn – Ysgol aml-safle*

  Mi fydda'r opsiwn yma yn golygu uno nifer o ysgolion lleol fel un ysgol ar draws nifer o safleoedd gan gynnwys safle Ysgol Baladeulyn.

  **Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Baladeulyn, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn. Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn ar safle Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Yn ddibynnol ar strwythur yr ysgol newydd, mae posibilrwydd y bydd angen trefnu cludiant rhwng ysgolion.**

- *Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn*

  Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gyda Ysgol Baladeulyn gan ychwanegu ardal benodol arbenigol i blant gyda anghenion dysgu ychwanegol ar safle'r ysgol.

  **Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Baladeulyn, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwr yr uned ADY. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.**

- *Cynnwys uned iaith ar safle Ysgol Baladeulyn*

  Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gydag Ysgol Baladeulyn gan ychwanegu Uned Iaith ar safle'r ysgol. Byddai'n cynnig gwasanaeth trochi i'r plant yn y Gymraeg sydd ei angen cyn ymuno a'u hysgolion dewisol yn llawn amser.

  **Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Baladeulyn, gan y byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch**

**Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned iaith.**

Opsiynau amgen rhesymol a ystyriwyd yn dilyn yr ymgynghoriad statudol:

- *Ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd 'hybrid' prif ffrwd ac ADY er mwyn cynnig darpariaeth arbenigol i'r ardal leol.*

  **Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cael unrhyw effaith ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Baladeulyn, gan y byddai'r dysgwyr presennol yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. Yn ddibynnol ar natur y ddarpariaeth hybrid ADY, gallai fod angen i'r awdurdod ystyried trefniadau cludiant ar gyfer dysgwyr sy'n mynychu'r ddarpariaeth o ddalgylchoedd eraill, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.**

## 2.2 Opsiynau cludiant di-dâl

Yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd, disgwylir i ddysgwyr sy'n derbyn addysg gynradd (ac eithrio dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau), gerdded hyd at 2 filltir i gwrdd ag unrhyw gludiant a ddarperir gan Gyngor Gwynedd ar hyd y llwybr byrraf.

Y llwybr byrraf sydd ar gael yw'r un nad yw'r Cyngor yn ei ystyried yn arbennig o beryglus, ar ôl asesu'r llwybrau eraill y gellid eu defnyddio, a byddai'r llwybrau hyn yn cael eu hasesu yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd.

Nodir fod nifer o fysus ysgol yn rhedeg yn yr ardal. Nid oes yr un o'r bysus ysgolion cynradd yn rhedeg rhwng Baladeulyn a Talysarn i fedru manteisio ar un o'r rhan.

## 2.3. Crynodeb o'r effaith tebygol ar drefniadau teithio

Mae crynodeb isod o'r effaith ar drefniadau teithio yr opsiynau dan ystyriaeth:

| Opsiynau | Yr effaith debygol ar drefniadau teithio i ddysgwyr | Yr effaith debygol ariannol blynyddol ar drefniadau teithio i'r Awdurdod |
|---|---|---|
| Gwneud dim - Parhau gyda'r sefyllfa bresennol | Niwtral – Dim newid<br><br>Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | £0 |
| Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd. | £0 |

| | | |
|---|---|---|
| | Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | |
| Ffederaleiddio gyda ysgol gyfagos gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br><br>Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.<br><br>Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY. | £0<br><br>Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY. |
| Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) | Negyddol<br><br>Mae Ysgol Talysarn wedi ei lleoli 2.5 milltir o Ysgol Baladeulyn. Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn fyddai'n mynychu Ysgol Talysarn ac yn byw fwy na 2 filltir o'r ysgol, yn unol â Pholisi Cludiant yr Awdurdod.<br><br>Wedi ystyried niferoedd presennol (Ionawr 2026), rhagwelir y byddai angen trefnu bws 8 sedd i gludo dysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn (fyddai'n gymwys am gludiant yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd) i Ysgol Talysarn. Rhagwelir y byddai hyn ar gost o hyd at £17,000 y flwyddyn.<br><br>Pe byddai cynnydd yn niferoedd dysgwyr y dalgylch i'r dyfodol, yna fe all olygu y byddai angen darparu bws ysgol er mwyn cludo dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn fyddai'n gymwys am gludiant (yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd). Rhagwelir y byddai hyn ar gost o hyd at £30,000 y flwyddyn.<br><br>Bydd rhai dysgwyr yn teithio ymhellach i'r ysgol nac y gwnaent ar hyn o bryd.<br><br>Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol, neu disgwyl iddynt gerdded neu beicio ar lwybrau peryglus i'r ysgol.<br><br>Codwyd pryderon penodol yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch addasrwydd llwybrau cerdded a beicio rhwng y ddau bentref, gan gyfeirio at ffyrdd cul, traffig cyflym, diffyg palmentydd, problemau llifogydd a diffyg seilwaith teithio llesol. Mynegwyd y farn nad yw'r llwybrau hyn yn addas nac yn ddiogel i blant oed cynradd, ac felly nad yw cerdded neu feicio i'r ysgol amgen yn opsiwn. Nodwyd y byddai rhai dysgwyr yn colli'r gallu presennol i gerdded neu feicio i'r ysgol yn ddiogel, gan leihau annibyniaeth a hyder yn ogystal âg arwain at deithiau dyddiol hirach. Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a godwyd ynghylch addasrwydd a diogelwch llwybrau cerdded a'r ffordd rhwng Nantlle a | £17,000 - £30,000 |

| | | |
|---|---|---|
| | Thalysarn. Yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor Gwynedd a nodir yn y Llawlyfr i Rieni, mae asesiadau llwybrau cerdded yn seiliedig ar y llwybr byrraf sydd, ar ôl asesiad, nad yw'n cael ei ystyried yn arbennig o beryglus. Lle nodir bod llwybr yn annerbyniol o safbwynt diogelwch, neu lle nad yw'n rhesymol disgwyl i blentyn oed cynradd gerdded y llwybr yn ddiogel, mae'r Cyngor yn darparu cludiant ysgol yn unol â'r polisi. Yn yr achos hwn, mae'r Asesiad Effaith ar Deithio yn nodi'r materion a godwyd ynghylch addasrwydd cerdded, ac mae'n seiliedig ar y ffaith y byddai cludiant ysgol yn cael ei ddarparu i'r dysgwyr hynny sy'n gymwys yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd a nodir yn y Llawlyfr i Rieni. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai unrhyw ddysgwr dalgylch Ysgol Baladeulyn yn gorfod teithio pellter afresymol na cherdded ar lwybrau peryglus i'r ysgol pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu.<br><br>Mynegwyd pryderon ymarferol ac ariannol ynghylch cludiant i blant 3 a 4 oed nad ydynt eto mewn addysg statudol hefyd. Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon a galwad am sicrwydd ynghylch cludiant i blant 3 a 4 oed nad ydynt eto mewn addysg statudol. Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau cludiant ysgol yn cael eu gwneud yn unol â Pholisi Cludiant Ysgol Cyngor Gwynedd, sy'n darparu cludiant ysgol am ddim i ddysgwyr hyd at oed cynradd sy'n gymwys, yn bennaf ar sail pellter (mwy na 2 filltir o'r ysgol berthnasol) neu lle bo'r llwybr cerdded yn cael ei asesu'n anniogel. Nid yw dysgwyr meithrin yn gymwys o dan y polisi. Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd cludiant dibynadwy i deuluoedd. Fodd bynnag, nid yw cludiant ysgol, fel arfer, yn cael ei ddarparu i hwyluso mynediad at wasanaethau ychwanegol, ac mae trefniadau o'r fath yn cael eu hystyried yn unol â'r polisi cludiant a'r meini prawf statudol perthnasol.<br><br>Amlygwyd pryderon penodol hefyd ynghylch diffyg cludiant cyhoeddus addas, amserlenni annibynadwy a lefelau is o berchnogaeth car. Nodwyd bod hyn yn peri her fawr i deuluoedd nad ydynt yn gyrru, teuluoedd incwm is, rhieni sengl a theuluoedd lle mae anableddau neu symudedd cyfyngedig yn ffactor, gan wneud teithio dyddiol i ysgol ymhellach i ffwrdd yn anodd iawn yn ymarferol. Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon hyn ac yn nodi, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn yn cael ei gynnwys o fewn dalgylch diwygiedig Ysgol Talysarn. O ystyried bod Ysgol Talysarn wedi'i lleoli tua 2.5 milltir o Ysgol Baladeulyn, byddai dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn sy'n gymwys o dan y polisi yn cael cynnig cludiant ysgol a drefnir gan y Cyngor. Er y cydnabyddir y byddai rhai dysgwyr yn teithio pellter pellach na'r presennol, ni ragwelir y byddai unrhyw ddysgwr o ddalgylch Baladeulyn yn gorfod teithio pellter afresymol i'r ysgol. Bydd trefniadau cludiant yn cael | |

| | | |
|---|---|---|
| | eu cynllunio i leihau unrhyw effaith negyddol bosibl ar ddysgwyr a theuluoedd. | |
| Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn – Ysgol aml-safle | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu ar safle Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br><br>Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.<br><br>Yn ddibynnol ar strwythur yr ysgol newydd, mae posibilrwydd y byddai angen trefnu cludiant rhwng ysgolion. | £0 |
| Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br><br>Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwr yr uned ADY.<br><br>Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol | £0<br><br>Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned ADY. |
| Cynnwys Uned Iaith ar safle Ysgol Baladeulyn | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr yn parhau yn yr un modd.<br><br>Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol.<br><br>Byddai angen i'r awdurdod darparu cludiant i ddysgwyr yr uned iaith. | £0<br><br>Byddai angen i'r awdurdod ddarparu cludiant i ddysgwyr yr uned Iaith. |

## 2.4. Opsiynau amgen rhesymol a ystyriwyd yn dilyn yr ymgynghoriad:

| Opsiynau | Yr effaith debygol ar drefniadau teithio i ddysgwyr | Yr effaith debygol ariannol blynyddol ar drefniadau teithio i'r Awdurdod |
|---|---|---|
| Ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd 'hybrid' prif ffrwd ac ADY er mwyn cynnig darpariaeth | Niwtral<br><br>Byddai'r dysgwyr prif ffrwd yn parhau i gael eu haddysgu yn Ysgol Baladeulyn a byddai trefniadau teithio'r dysgwyr prif ffrwd yn parhau yn yr un modd.<br><br>Ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol. | £0 ar gyfer dysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn.<br><br>Gallai costau godi pe bai cludiant yn cael ei ddarparu i ddysgwyr o ddalgylchoedd eraill, fyddai'n mynychu'r ddarpariaeth arbenigol. |

| | | |
|---|---|---|
| arbenigol i'r ardal leol. | Yn ddibynnol ar natur y ddarpariaeth hybrid ADY, gallai fod angen i'r awdurdod ystyried trefniadau cludiant ar gyfer dysgwyr sy'n mynychu'r ddarpariaeth o ddalgylchoedd eraill, yn unol â pholisi cludiant Cyngor Gwynedd. | |

# 3. CASGLIAD

Wrth ystyried yr holl opsiynau dan sylw, daw'r asesiad effaith i'r casgliad nad yw'r mwyafrif o'r opsiynau a aseswyd yn debygol o gael effaith negyddol ar drefniadau teithio presennol dysgwyr Ysgol Baladeulyn, gan y byddai'r ddarpariaeth addysgol yn parhau ar safle'r ysgol, ac ni fyddai unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn yn gorfod teithio pellter afresymol i'r ysgol.

Ni ragwelir y byddai effaith negyddol ar drefniadau teithio dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn deillio o weithredu'r unrhyw un o'r opsiynau a restrir uchod (adran 2), ac eithrio'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn.

Fodd bynnag, cydnabyddir yn glir, fel y nodwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, fod y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn yn wahanol ei natur, gan y byddai'n arwain at newid i drefniadau teithio. Yn benodol, bu i ymgynghorai fynegi pryderon ynghylch diogelwch ac addasrwydd llwybrau cerdded a'r ffyrdd i blant oed cynradd, darpariaeth cludiant i blant 3 a 4 oed, sicrwydd cludiant i holl ddysgwyr presennol yr ysgol, a'r effaith ar deuluoedd mewn ardal wledig.
Pe byddai'r opsiwn o gau Ysgol Baladeulyn a chynnig addysg i'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y byddai effaith ar drefniadau teithio i'r dysgwyr. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd unrhyw ddysgwr dalgylch Baladeulyn angen teithio pellter afresymol i'r ysgol, a ni fydd disgwyl iddynt gerdded neu beicio ar lwybrau peryglus i'r ysgol.

Wrth ystyried y data niferoedd diweddaraf, sef Ionawr 2026, rhagwelir y byddai angen trefnu bws 8 sedd er mwyn cludo dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn fyddai'n gymwys am gludiant (yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor Gwynedd) i Ysgol Talysarn. Amcangyfrifir i'r costau cludiant hyn fod oddeutu £17,000 y flwyddyn.

Pe byddai cynnydd yn niferoedd dysgwyr y dalgylch i'r dyfodol, yna fe all olygu y byddai angen darparu bws ysgol er mwyn cludo dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn fyddai'n gymwys am gludiant (yn unol â Pholisi Cludiant Cyngor Gwynedd). Amcangyfrifir i'r costau cludiant hyn fod oddeutu £30,000 y flwyddyn.

O ganlyniad, rhagwelir y byddai'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Talysarn yn arwain at gostau cludiant ychwanegol i'r Awdurdod. Amcangyfrifir i'r costau hyn fod oddeutu £17,000-£30,000 y flwyddyn i ddarparu cludiant pe byddai holl ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn yn dewis mynychu Ysgol Talysarn.

# ASESIAD O'R EFFAITH DEBYGOL AR Y GYMUNED – YSGOL BALADEULYN

## Mai 2026

# 1. CYFLWYNIAD

Wrth ddatblygu cynigion ar gyfer trefniadaeth ysgolion, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynnal asesiad o effaith debygol ar y gymuned, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018).

## Cefndir

Mae Ysgol Baladeulyn wedi ei leoli ym mhentref Nantlle ar gyrion Penygroes ac yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal gyfagos. Mae gostyngiad sylweddol wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Baladeulyn dros y 10 mlynedd diwethaf. Erbyn Ionawr 2026, dim ond 6 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 a 2 dysgwr Meithrin sy'n mynychu'r ysgol.

Yn eu cyfarfod ar 11 Chwefror 2025, bu i'r Cabinet gefnogi argymhelliad i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda rhanddeiliaid Ysgol Baladeulyn er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer yr dyfodol. Rhwng Mawrth a Gorffennaf 2025, cynhaliwyd 3 cyfarfod lleol gyda rhan-ddeiliaid Ysgol Baladeulyn ymhle cynigiwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau.

Ar 14 Hydref 2025, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar gynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026, a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 10 Rhagfyr a 28 Ionawr, a derbyniwyd 30 ymateb i'r ymgynghoriad.

# 2. YR OPSIYNAU

Bu i'r Awdurdod ystyried a thrafod nifer o opsiynau ar gyfer dyfodol Ysgol Baladeulyn, gan gynnwys:

- *Gwneud dim – parhau gyda'r sefyllfa presennol*

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)*

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Gan ystyrir Ysgol Talysarn fel yr ysgol gyfagos i ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn, byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng 3 ysgol, gan fod Ysgol Talysarn eisoes wedi ffedereiddio gydag Ysgol Brynaerau.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn*

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Gan ystyrir Ysgol Talysarn fel yr ysgol gyfagos i ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn, byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol rhwng 3 ysgol gan fod Ysgol Talysarn eisoes wedi ffedereiddio gydag Ysgol Brynaerau.

Yn ogystal â ffederaleiddio, byddai'r opsiwn yma hefyd yn golygu ychwanegu lleoliad ar gyfer uned ADY yn Ysgol Baladeulyn.

- *Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)*

Golygai'r opsiwn yma y byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, ac y byddai dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn yn cael cynnig lle yn Ysgol Talysarn (yr ysgol amgen).

- *Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn – Ysgol aml-safle*

Byddai'r opsiwn yma'n golygu uno nifer o ysgolion lleol, drwy gau'r ysgolion a sefydlu un ysgol aml-safle fyddai'n cynnwys safle Ysgol Baladeulyn. Byddai'r opsiwn yn galluogi'r posibilrwydd o rannu adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb safle ysgol ym mhentref Nantlle trwy sefydlu ysgol aml-safle, dan arweiniad pennaeth ac un corff llywodraethol.

- *Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gydag Ysgol Baladeulyn gan ychwanegu ardal benodol arbenigol i blant gydag anghenion dysgu ychwanegol ar safle'r ysgol.

- *Cynnwys uned iaith ar safle Ysgol Baladeulyn*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gydag Ysgol Baladeulyn gan ychwanegu Uned Iaith ar safle'r ysgol. Byddai'n cynnig gwasanaeth trochi i'r plant yn y Gymraeg sydd ei angen cyn ymuno a'u hysgolion dewisol yn llawn amser.

**Opsiynau amgen rhesymol a ystyriwyd yn dilyn yr ymgynghoriad statudol:**

- *Ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd 'hybrid' prif ffrwd ac ADY er mwyn cynnig darpariaeth arbenigol i'r ardal leol*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd 'hybrid' prif ffrwd sydd yn cynnwys addysg arbenigol i blant gyda anghenion dysgu ychwanegol ar safle'r ysgol. Byddai'r opsiwn hyn yn cynnig addysg hybrid i ddysgwyr cynradd yn yr ardal leol i fynychu Ysgol Baladeulyn fel ysgol prif ffrwd a/neu gyda mynediad i ddarpariaeth addysg arbenigol ADY.

# 3. CRYNODEB O'R DALGYLCH

## 3.1 Yr Ardal

Mae Ysgol Baladeulyn wedi ei leoli ym mhentref gwledig Nantlle ger pentref Talysarn a Penygroes yng Ngwynedd ac o fewn ward Llanllyfni. Yn ôl cyfrifiad 2021, mae 1,957 o bobl yn byw yn ward Llanllyfni. Mae dalgylch Ysgol Baladeulyn yn cynnwys rhan o ward Dolbenmaen, rhan o ward Glaslyn a rhan o ward Waunfawr yn ogystal â rhan o ward Llanllyfni.

## 3.2 Yr Economi

Yn Cyfrifiad 2021, mae 55.5% o bobl rhwng 16 a 74 mlwydd oed o fewn ward Llanllyfni yn weithgar yn economaidd, a 3.7% o'r rhain yn ddi-waith. Mae 43.2% o bobl yn yr un grŵp oedran yn anweithgar yn economaidd gyda 5.9% o'r rhain yn sâl neu'n anabl am gyfnod hir.

Mae'r math o ddiwydiant y mae'r boblogaeth yn weithgar ynddo yn amrywiol yn yr ardal, gyda'r gyfradd uchaf (19.9%) yn gweithio yn y maes iechyd a gwaith cymdeithasol (Cyfrifiad 2021).

Yn ôl data 'Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2025)' mae cyfradd cyflogaeth ward Llanllyfni a Chlynnog o gymharu â wardiau eraill yng Nghymru yn rhoi ranc o 1152 allan o 1917 o wardiau. Felly, mae ward Llanllyfni a Chlynnog o fewn y 50% lleiaf difreintiedig yng Nghymru.

## 3.3 Amddifadedd

Mae ward Llanllyfni a Chlynnog wedi 'w raddio o fewn y 20%-30% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (ranc 546 allan o 1917 o wardiau).

Mae nifer o feysydd yn llunio'r mynegai cyffredinol yma, gan gynnwys incwm, cyflogaeth, iechyd, addysg, mynediad i wasanaethau, diogelwch cymunedol, amgylchedd ffisegol a thai.

Nodir fod ward Llanllyfni a Chlynnog o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'Tai'. Dangosyddion y maes hwn yw'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi gorlawn (defnydd ystafelloedd gwely), a'r gyfran o bobl yn byw mewn cartrefi heb wres canolog.

Yn ogystal, mae ward Llanllyfni a Chlynnog o fewn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn y maes 'mynediad i wasanaethau', h.y. amddifadedd am nad yw pobl yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau sy'n cael eu hystyried yn hanfodol ar gyfer byw o ddydd i ddydd. Mae'r dangosyddion yn cynnwys cyfartaledd amseroedd teithio cyhoeddus a phreifat i nifer o wasanaethau megis siopau bwyd, meddygfa, ysgolion cynradd ac uwchradd, swyddfa bost, llyfrgell gyhoeddus, fferyllfa, canolfan hamdden ac amser teithio preifat i orsaf betrol.

Mae crynodeb isod o sut y mae ardal Llanllyfni a Chlynnog wedi ei lleoli yng nghyd-destun ardaloedd eraill yng Nghymru yn ôl y Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (2025):

| **Maes** | **Ranc yng Nghymru, allan o 1917 o ardaloedd. (1 = mwyaf difreintiedig a 1917 = lleiaf difreintiedig)** | **Mwyaf difreintiedig % yng Nghymru** |
|---|---|---|
| Cyflogaeth | 1152 | |
| Incwm | 778 | |
| Iechyd | 1247 | |
| Addysg | 835 | |
| Tai | 47 | O fewn y 10% mwyaf difreintiedig |
| Amgylchedd ffisegol | 448 | |
| Mynediad i wasanaethau | 86 | O fewn y 10% mwyaf difreintiedig |
| Diogelwch cymunedol | 767 | |

### 3.4 Y Gymuned

Mae nifer o weithgareddau yn cael eu cynnal yn ardal Nantlle, gan gynnwys;

- Ras Tal y Mignedd
- Gŵyl Dewi
- Trigonos Plas Baladeulyn
- Llys Llywelyn
- Gwasanaethau Nadolig

# 4. YSGOL BALADEULYN A'R YSGOLION CYFAGOS

## 4.1 Cyd-destun yr ysgolion yn ôl Adroddiadau Arolygon Estyn

Fel rhan o adroddiadau Estyn, gosodir yr ysgolion o fewn cyd-destun, a manylir ar eu cysylltiadau cymunedol. Dyma'r cyd-destun a roddwyd i Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn gan arolygwyr Estyn.

**Ysgol Baladeulyn**

*"Lleolir Ysgol Gynradd Baladeulyn ym mhentref Nantlle wrth droed yr Wyddfa, rhyw dair milltir o Ben-y-groes yng Ngwynedd."*

*Ffynhonnell: Adroddiad Estyn, Tachwedd 2017*

**Ysgol Talysarn**

*"Mae ffederasiwn Talaerau, sy'n cynnwys ysgolion Talysarn a Brynaerau, yn gymuned gynnes a gofalgar lle mae lles a chynnydd disgyblion yn greiddiol i'w ethos"*

*Ffynhonnell: Adroddiad Estyn, Tachwedd 2025*

## 4.2 Gwybodaeth ystadegol

Dengys y tabl isod niferoedd Ysgol Baladeulyn a'r ysgolion eraill o fewn dalgylch Ysgol Dyffryn Nantlle. Gwelir yn ogystal yn y tabl hwn beth yw capasiti'r ysgol a nifer ar y gofrestr yn Ionawr 2026. Mae pob ysgol yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

| **Ysgol** | **Capasiti Llawn** (M – Bl6) | **Nifer ar y gofrestr** Ionawr 2026 (M – Bl6) | **Categori Cyfreithiol** | **Categori Ieithyddol** |
|---|---|---|---|---|
| **Baladeulyn** | 62 | 8 | Ysgol Gymunedol | Cyfrwng Cymraeg, Categori 3 |
| **Talysarn** | 104 | 98 | Ysgol Gymunedol | Cyfrwng Cymraeg, Categori 3 |
| **Bro Lleu** | 207 | 189 | Ysgol Gymunedol | Cyfrwng Cymraeg, Categori 3 |
| **Llanllyfni** | 117 | 71 | Ysgol Gymunedol | Cyfrwng Cymraeg, Categori 3 |
| **Nebo** | 58 | 12 | Ysgol Gymunedol | Cyfrwng Cymraeg, Categori 3 |
| **Brynaerau** | 81 | 54 | Ysgol Gymunedol | Cyfrwng Cymraeg, Categori 3 |
| **Bro Llifon** | 196 | 149 | Ysgol Gymunedol | Cyfrwng Cymraeg, Categori 3 |

***Ffynhonnell: CYBLD Ionawr 2026***

## 4.3 Gwybodaeth dalgylchol a dewis ysgolion dysgwyr

Mae gan bob ysgol ddalgylch penodol y mae'n gwasanaethu ac sydd yn bwysig o ran polisi mynediad a chludiant y Cyngor. Nid oes rhaid i ddysgwyr fynychu eu hysgol dalgylch, mae'r dewis i fyny i rieni (yn unol â'r polisi mynediad).

Dengys y data diweddaraf (data Ionawr 2026) fod 75% o'r plant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Baladeulyn yn mynychu ysgolion all-dalgylch. Mae'r tabl isod yn nodi cyfran y dysgwyr (Meithrin – Bl.6) sy'n byw yn y dalgylch ac yn mynychu'r ysgol dalgylch, a'r gyfran o ddysgwyr o du i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol.

| **Ysgol** | **Cyfran o ddysgwyr y dalgylch sy'n mynychu'r ysgol dalgylch** | **Cyfran o ddysgwyr yr ysgol sy'n byw yn nalgylch yr ysgol** | **Cyfran o ddysgwyr o du allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol.** |
|---|---|---|---|
| Baladeulyn | 25% | 25% | 75% |
| Talysarn | 81% | 79% | 21% |

***Ffynhonnell: Data GIS Ionawr 2026***

## 4.4 Crynodeb o'r amrywiol gyfleusterau sydd yng nghymuned Baladeulyn a Thalysarn (Medi 2025)

| | Baladeulyn | Talysarn |
|---|---|---|
| **Canolfan Gymuned / Neuadd Bentref** | ✓ | ✓ |
| **Capel/Eglwys** | ✓ | |
| **Trafnidiaeth Gyhoeddus** | ✓ | ✓ |
| **Siop** | | |
| **Caffi/Tafarn** | | |
| **Swyddfa Bost** | | |
| **Fferyllfa** | | |
| **Llyfrgell** | | |
| **Cae Chwarae Plant** | ✓ | ✓ |
| **Banc** | | |
| **Cartref Henoed** | | |
| **Canolfan Hamdden** | | |
| **Garej** | ✓ | |
| **Atyniad Twristaidd** | ✓ | |
| **Cylch Ti a Fi + Meithrin** | | ✓ |

**Canolfan Gymunedol**

Mae Canolfan Llys Llywelyn wedi ei leoli ym mhentref Nantlle sydd 0.5 milltir oddi wrth Ysgol Baladeulyn ac yn cynnal nifer o weithgareddau cymunedol gan gynnwys:

- Ffair Haf
- Ffair Nadolig
- Cyngherddau
- Bore Coffi
- Marchnad

## 4.5 Crynodeb o ddefnydd yr ysgolion y tu allan i oriau craidd yr ysgol:

Mae crynodeb o ddefnydd cymunedol neu all-gwricwlaidd o adeiladau'r ysgolion lleol isod:

| | Baladeulyn | Talysarn | Brynaerau | Bro Llifon | Bro Lleu | Llanllyfni | Nebo |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)** | | | | | | | |
| **Aelwyd yr Urdd** | | | | | | ✓ | |
| **Dramâu** | | | | | | | |
| **Grwpiau Gwirfoddol** | | | | | | ✓ | ✓ |
| **Bore/Noson Goffi** | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ |
| **Arwerthiant Cymunedol** | | | | | | | |
| **Ymarfer Côr** | | | | | | | |
| **Cymraeg i Oedolion** | | | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarfod Cyngor Tref/Gymuned** | | | | | | | |
| **Cylch/Ysgol Feithrin** | | | | | | ✓ | |
| **Clwb/Gweithgaredd Chwaraeon** | | | | ✓ | | ✓ | |
| **Clwb ar ôl Ysgol** | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| **Clwb Diddordeb Lleol** | | | | | | | ✓ |

Mae Cylch Meithrin wedi ei leoli ym mhentref Talysarn sy’n darparu gofal ac addysg blynyddoedd cynnar drwy gyfrwng y Gymraeg i blant cyn-ysgol. Mae’r cyd-weithio rhwng Ysgol Talysarn a’r Cylch yn golygu trosglwyddiad esmwyth i’r plant o’r Cylch i’r dosbarth meithrin. Mae’r Cylch yn darparu lleoedd i blant rhwng 2 a 4 oed, ac yn cynnig ddarpariaethau Dechrau’n Deg, y cynnig 10 awr Addysg Feithrin (Dysgu Sylfaen), ynghyd a darparu gofal cofleidiol i blant oed meithrin Ysgol Talysarn ac ysgolion cyfagos. Mae Cylch Meithrin hefyd yn rhan o’r Cynllun Gofal Plant, sef cynllun sy’n cynnig hyd at 30 awr yr wythnos o ofal plant blynyddoedd cynnar am ddim. Mae plant yn gallu manteisio ar y Cynnig Gofal Plant o ddechrau’r tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd tan y Medi ar ôl iddynt droi’n 4.

Nid oes darpariaeth blynyddoedd cynnar yn Ysgol Baladeulyn, ac eithrio dosbarth Meithrin yr ysgol.

## 4.6 Crynodeb o weithgareddau neu grwpiau y mae’r ysgol yn ymwneud yn rheolaidd a nhw:

| | **Baladeulyn** | **Talysarn** |
|---|---|---|
| **Cylch Meithrin/Ti a Fi** | | ✓ |
| **Eisteddfodau (Lleol/Sirol/Cenedlaethol)** | | |
| **Adrannau'r Urdd** | | |
| **Gweithgareddau eraill (chwaraeon, clybiau)** | | ✓ |

## 4.7 Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol ar ran y gymuned ble y byddent yn cael eu darparu os caiff yr ysgol ei chau?

| **Ysgol** | **Ble darparir cyfleusterau pe bai’n cau** |
|---|---|
| **Baladeulyn** | Yn ôl y Pennaeth yn Tachwedd 2025, mae'r ysgol yn gwahodd y gymuned i'r ysgol ar gyfer gweithgareddau'r ysgol o fewn oriau'r ysgol a thu allan i oriau'r ysgol fel nosweithiau coffi, cyflwyniadau gan y plant a gwasanaethau. Er hyn, mae Canolfan Llys Llywelyn ar gael ar gyfer cynnal gweithgareddau yn yr ardal yn ogystal a Trigonos Plas Baladeulyn. |

## 4.8 Gwybodaeth am bellter ac amser teithio i ysgolion eraill y dalgylch

Mae’r tabl isod yn nodi pellter ac amser teithio rhwng Ysgol Baladeulyn ac ysgolion yr ardal. Gwelwn mai Ysgol Talysarn yw’r agosaf at Ysgol Baladeulyn. Mae’r amseroedd teithio isod yn ystyried natur y lonydd a’r effaith y gall hynny ei gael ar amser teithio mewn ardal wledig.

| **Ysgol** | | **Baladeulyn** |
|---|---|---|
| **Talysarn** | **Milltir** | **2.5** |
| | **Munudau** | **6** |
| **Bro Lleu** | **Milltir** | **3.3** |
| | **Munudau** | **7** |
| **Llanllyfni** | **Milltir** | **3.7** |

| | | |
|---|---|---|
| | **Munudau** | **10** |
| **Nebo** | **Milltir** | **5.2** |
| | **Munudau** | **14** |
| **Brynaerau** | **Milltir** | **6** |
| | **Munudau** | **16** |
| **Bro Llifon** | **Milltir** | **6.3** |
| | **Munudau** | **13** |

***Ffynhonnell: Mapiau Google 2026***

## 5. ASESIAD O'R EFFAITH TEBYGOL AR Y GYMUNED

Er mwyn asesu effaith cymunedol yr opsiynau posib, penderfynwyd creu meini prawf yn unol ag argymhellion ystyriaethau asesiad cymunedol y Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018.

### *OPSIWN 1: GWNEUD DIM – PARHAU GYDA'R SEFYLLFA BRESENNOL*

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Ni fydd unrhyw newid i'r ddarpariaeth bresennol felly ni ragwelir unrhyw newid i'r effaith ar iechyd a lesiant. | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Gan na fyddai unrhyw newid i'r ddarpariaeth gyfredol ni ragwelir effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus. Bydd unrhyw gludiant sydd angen i Ysgol Baladeulyn ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol a Polisi Cludiant y Sir. | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Ni fyddai newid i'r ddarpariaeth felly ni ragwelir unrhyw effaith ar ddefnydd presennol yr ysgol. | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Ni fyddai newid i'r ddarpariaeth felly ni ragwelir unrhyw effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach. | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Ni fyddai newid i'r ddarpariaeth. O ganlyniad, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phant oedran ysgol i adael y gymuned, na golygu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned. | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Ni fyddai unrhyw newid i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith ar wasanaethau eraill lleol. | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Ni fuasai unrhyw newid i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned. | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Ni fyddai unrhyw newid i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd felly ni ragwelir unrhyw effaith ar y gymuned leol. | Niwtral |

### *OPSIWN 2: FFEDERALEIDDIO GYDAG YSGOL GYFAGOS (YSGOL TALYSARN)*

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Gan y byddai ffedereiddio yn golygu y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol felly ni ragwelir effaith ar iechyd a llesiant. | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Gan y byddai ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni ragwelir effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus. Bydd unrhyw gludiant sydd angen i Ysgol Baladeulyn ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol â Pholisi Cludiant y Sir. | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Gan y byddai ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw effaith ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Gan y byddai ffedereiddio yn golygu y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw newid i effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach. | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Gan y byddai ffedereiddio yn golygu y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw effaith ar sut mae rhieni yn dewis ysgol i'w plant nac yn effeithio ar ddewis byw yn y dalgylch neu ddim. Mae cyfran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch (75%). O ganlyniad, ni ragwelir y byddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phant oedran ysgol i adael y gymuned, na golygu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned. | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Gan y byddai ffedereiddio y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw newid i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd, felly ni ragwelir unrhyw effaith ar wasanaethau eraill lleol. | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Gan y byddai ffedereiddio yn golygu y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw effaith ar yr hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd, felly ni ragwelir unrhyw effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned. | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Gan y byddai ffedereiddio yn golygu y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni ragwelir unrhyw newid i'r hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd, felly ni ragwelir unrhyw effaith ar y gymuned leol. Fodd bynnag, nodir cyfleoedd i gymuned Baladeulyn a chymunedau'r ysgolion fyddai'n rhan o'r ffederasiwn i ddod at ei gilydd. | Niwtral |

***OPSIWN 3: FFEDERALEIDDIO GYDAG YSGOL GYFAGOS GAN YCHWANEGU ARDAL ARBENIGOL AR GYFER PLANT AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YN YSGOL BALADEULYN***

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iechyd a llesiant gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, ond fel rhan o ffederasiwn gydag ysgol gyfagos, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle. | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, ond fel rhan o ffederasiwn gydag ysgol gyfagos, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle. Bydd unrhyw gludiant sydd angen i Ysgol Baladeulyn ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol â Pholisi Cludiant y Sir. | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Gan y byddai ffedereiddio yn golygu bod Ysgol Baladeulyn yn parhau ar agor ni fyddai newid i'r ddarpariaeth bresennol felly ni ragwelir effaith ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag darpariaeth uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle. | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n annog teuluoedd a phlant oedran ysgolion i adael y gymuned, na bod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle. Dylid nodi fod canran uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion all-dalgylch eisoes (75%). | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle. | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar economi ehangach y gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle. | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn hwn yn cael effaith ar y gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi'i lleoli ar safle'r ysgol. Fodd bynnag, nodir cyfleoedd i gymuned Baladeulyn a chymunedau'r ysgolion fyddai'n rhan o'r ffederasiwn i ddod at ei gilydd. | Niwtral |

*OPSIWN 4: CAU YSGOL BALADEULYN A CHYNNIG LLE I'R DYSGWYR MEWN YSGOL GYFAGOS (TALYSARN)*

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Rhagwelir y byddai bod mewn ysgol mwy yn cynnig mwy o gyfleoedd chwarae a chymryd rhan mewn chwaraeon tîm ac felly yn cyfrannu'n bositif tuag at iechyd a llesiant dysgwyr.<br><br>Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, nodwyd rhai pryder y byddai rhai dysgwyr yn colli'r gallu presennol i gerdded neu feicio i'r ysgol yn ddiogel, gan leihau annibyniaeth a hyder yn ogystal ag arwain at deithiau dyddiol hirach.<br><br>Gan fod yr ysgol amgen wedi ei lleoli tua 2.5 milltir o Ysgol Baladeulyn, ac ymhellach o gartrefi dysgwyr y dalgylch, ni ragwelir y byddai dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn debygol o gerdded na feicio i'r ysgol amgen, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Byddai cludiant ysgol yn cael ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant yr Awdurdod, sy'n darparu cludiant di-dâl i ddysgwyr cynradd sy'n byw 2 filltir neu ymhellach o'r ysgol dalgylch neu'r ysgol agosaf.<br><br>O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fydd yr effaith ar y meini prawf hwn. | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y bydd unrhyw gludiant i'r ysgol amgen yn sgil unrhyw newid yn cael ei drefnu yn benodol ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn unol â Polisi Cludiant y Sir. | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Yn ôl y Pennaeth yn Tachwedd 2025, mae'r ysgol yn gwahodd y gymuned i'r ysgol ar gyfer gweithgareddau'r ysgol o fewn oriau'r ysgol a thu allan i oriau'r ysgol fel nosweithiau coffi, cyflwyniadau gan y plant a gwasanaethau. Er hyn, mae Canolfan Llys Llywelyn ar gael ar gyfer cynnal gweithgareddau yn yr ardal yn ogystal â Trigonos Plas Baladeulyn.<br><br>Pe byddai'r ysgol yn cau, byddai'n rhaid ystyried y darpariaethau hyn wrth drafod ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol. | Negyddol |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Ni ragwelir effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach. | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, nodwyd gan rai ymatebwyr y gallai colli'r ysgol fel adnodd cymunedol ddylanwadu'n negyddol ar y nifer o deuluoedd ifanc sydd yn symud i'r pentref. Hefyd, mynegwyd y gallai symud addysg y plant i gymuned arall wanhau cysylltiadau lleol a lleihau ymdeimlad o berthyn.<br><br>Yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael, mae cyfran uchel o blant y dalgylch eisoes yn mynychu ysgolion all-dalgylch (75%), gyda 50% o ddysgwyr Meithrin i Blwyddyn 6 o ddalgylch Ysgol Baladeulyn eisoes yn mynychu Ysgol Talysarn. O ganlyniad, nid yw'r Cyngor yn rhagweld y byddai teuluoedd a phlant ifanc yn gadael y gymuned pe byddai'r ysgol yn cau. Yn ogystal, o ystyried bod yr ysgol amgen wedi ei lleoli 2.5 milltir o Ysgol Talysarn, nid yw'r Cyngor yn rhagweld y byddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, na golygu y byddai teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned. Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda chau Ysgol Baladeulyn, byddai'r Cyngor yn ceisio liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nantlle a'r ysgol amgen, hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo hynny'n briodol, a sicrhau bod trigolion a theuluoedd Nantlle yn ymwybodol o gyfleoedd, cyfleusterau a gweithgareddau'r ysgol amgen. O ganlyniad, rhagwelir mai niwtral fydd yr effaith ar y meini prawf hwn. | Niwtral |

| | | |
|---|---|---|
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Mae nifer o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal yn Ganolfan Llys Llywelyn. Gan fod y Ganolfan yn annibynnol o'r ysgol ni ragwelir y byddai cau'r ysgol yn cael effaith uniongyrchol arwyddocaol ar ddefnydd cymunedol o Ganolfan Llys Llywelyn. | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Gan fod mwyafrif o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion all-dalgylch, ni ragwelir y byddai cau Ysgol Baladeulyn yn cael effaith ar economi ehangach y gymuned. | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, tynnwyd sylw at rôl yr ysgol wrth hwyluso rhyngweithio cymdeithasol dyddiol rhwng teuluoedd a thrigolion lleol. Mynegwyd pryder y byddai cau'r ysgol yn lleihau cyfleoedd i bobl gyfarfod, cymdeithasu a chynnal cysylltiadau cymunedol anffurfiol. Yn ogystal, tynnwyd sylw at rôl yr ysgol wrth hwyluso rhyngweithio cymdeithasol dyddiol rhwng teuluoedd a thrigolion lleol, yn ogystal â integreiddio teuluoedd newydd i fywyd Cymraeg y pentref.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod y byddai peth effaith negyddol debygol ar rai agweddau cymdeithasol a chymunedol leol pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn, megis cyfleoedd i rieni/gwarchodwyr/teuluoedd a thrigolion lleol cyfarfod yn ddyddiol yn y gymuned wrth ollwng a chasglu'r plant o'r ysgol. Yn ogystal, pe byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, cydnabyddir y byddai'r ysgol leol yn bellach o gartrefi o fewn dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn, ac o safbwynt amddifadedd golyga hyn fod un o ddangosyddion 'mynediad i wasanaethau' yn pellhau oddi wrth drigolion yr ardal. O ganlyniad, rhagwelir y bydd peth effaith negyddol ar y gymuned leol pe byddai'r ysgol yn cau.<br><br>Fodd bynnag, nodir bod canran sylweddol o blant y dalgylch (75%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), sydd yn awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos eisoes yn bodoli. Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda chau Ysgol Baladeulyn, byddai'r Cyngor yn ceisio liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nantlle a'r ysgol amgen, hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo hynny'n briodol, a sicrhau bod trigolion a theuluoedd Nantlle yn ymwybodol o gyfleoedd, cyfleusterau a gweithgareddau'r ysgol amgen. Yn ogystal, nodir mai pe byddai'r cynnig i gau'r ysgol yn cael ei wireddu, y byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel fframwaith i ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol. Nodir bod Canolfan Llys Llywelyn ar gael ar gyfer cynnal gweithgareddau cymunedol yn yr ardal yn ogystal â Trigonos Plas Baladeulyn. | Negyddol |

***OPSIWN 5: UNO YSGOLION LLEOL ER MWYN CEFNOGI A CHYNNAL YSGOL BALADEULYN – YSGOL AML-SAFLE***

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Gan y byddai'r ddarpariaeth ar safle Ysgol Baladeulyn yn parhau, ni rhagwelir y byddai'r opsiwn yma'n effeithio'n negyddol ar iechyd a llesiant. | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Gan y byddai'r ddarpariaeth ar safle Ysgol Baladeulyn yn parhau, ni ragwelir effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu. Byddai unrhyw gludiant fyddai ei angen i safle Ysgol Baladeulyn ar gyfer dysgwyr y dalgylch sy'n gymwys yn parhau yn unol â Polisi Cludiant y Sir. | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Gan y byddai safle Ysgol Baladeulyn yn parhau fel rhan o'r ysgol aml-safle, ni ragwelir y byddai gweithredu'r opsiwn yma yn cael effaith ar gyfleusterau/gwasanaethau eraill ar ddarperir yn yr ysgol. | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Ni ragwelir effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach, gan y byddai darpariaeth addysg yn parhau ar safle Ysgol Baladeulyn. | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Ni ragwelir unrhyw effaith ar y meini prawf yma, gan y byddai darpariaeth addysg yn parhau ar safle Ysgol Baladeulyn. | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Gan y byddai safle Ysgol Baladeulyn yn parhau fel rhan o'r ysgol aml-safle, ni ragwelir effaith ar wasanaethau eraill lleol. | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n effeithio ar yr hyn sydd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd, felly ni ragwelir unrhyw effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned. | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Gan y byddai safle Ysgol Baladeulyn yn parhau, rhagwelir mai niwtral fyddai'r effaith gyffredinol ar y gymuned leol pe byddai'r opsiwn yma'n cael ei weithredu. | Niwtral |

***OPSIWN 6: YCHWANEGU ARDAL ARBENIGOL AR GYFER DYSGWYR AG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YN YSGOL BALADEULYN***

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iechyd a llesiant gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle. | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle. | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y meini prawf hwn gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle. | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag darpariaeth uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle. | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n annog teuluoedd a phlant oedran ysgolion i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle. Dylid nodi fod canran uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion all-dalgylch eisoes (75%). | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle. | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar economi ehangach y gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle. | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gydag uned anghenion dysgu ychwanegol hefyd wedi ei leoli ar y safle. | Niwtral |

*OPSIWN 7: CYNNWYS UNED IAITH AR SAFLE YSGOL BALADEULYN*

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iechyd a llesiant gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle. | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei lleoli ar y safle. | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y meini prawf hwn gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei leoli ar y safle. | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei leoli ar y safle. | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n annog teuluoedd a phlant oedran ysgolion i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei leoli ar y safle. | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei leoli ar y safle. | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar economi ehangach y gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei leoli ar y safle. | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y gymuned, gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda darpariaeth uned iaith hefyd wedi ei leoli ar y safle. | Niwtral |

***OPSIWN 8: AIL-GATEGOREIDDIO YSGOL BALADEULYN FEL YSGOL GYNRADD 'HYBRID' PRIF-FFRWD AC ADY ER MWYN CYNNIG DARPARIAETH ARBENIGOL I'R ARDAL LEOL***

| Meini Prawf Effaith | Disgrifiad | Statws o'r effaith a'r gwaith |
|---|---|---|
| Effaith ar Iechyd a llesiant | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar iechyd a llesiant gan y byddai darpariaeth prif ffrwd Ysgol Baladeulyn yn parhau, ond gyda darpariaeth arbenigol ADY mewn ffurf 'hybrid'. | Niwtral |
| Goblygiadau'r newid ar ddarpariaethau cludiant cyhoeddus | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddarpariaeth cludiant cyhoeddus gan y byddai darpariaeth prif ffrwd Ysgol Baladeulyn yn parhau, ond gyda darpariaeth arbenigol ADY mewn ffurf 'hybrid' ar y safle. | Niwtral |
| Effaith ar gyfleusterau / gwasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y meini prawf hwn gan y byddai darpariaeth prif ffrwd Ysgol Baladeulyn yn parhau, ond gyda darpariaeth arbenigol ADY mewn ffurf 'hybrid' ar y safle. | Niwtral |
| Effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar ddiogelwch cymunedol ehangach gan y byddai darpariaeth prif ffrwd Ysgol Baladeulyn yn parhau, ond gyda darpariaeth arbenigol ADY mewn ffurf 'hybrid' ar y safle. | Niwtral |
| A fyddai'r opsiwn yn annog teuluoedd a phlant oedran ysgol i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n annog teuluoedd a phlant oedran ysgolion i adael y gymuned, neu fod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned, gan y byddai darpariaeth prif ffrwd Ysgol Baladeulyn yn parhau, ond gyda darpariaeth arbenigol ADY mewn ffurf 'hybrid' ar y safle. Dylid nodi fod canran uchel o blant y dalgylch yn mynychu ysgolion all-dalgylch eisoes (75%). | Niwtral |
| Effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, gan y byddai darpariaeth prif ffrwd Ysgol Baladeulyn yn parhau, ond gyda darpariaeth arbenigol ADY mewn ffurf 'hybrid' ar y safle. | Niwtral |
| Effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar economi ehangach y gymuned, gan y byddai darpariaeth prif ffrwd Ysgol Baladeulyn yn parhau, ond gyda darpariaeth arbenigol ADY mewn ffurf 'hybrid' ar y safle. | Niwtral |
| Effaith gyffredinol ar y gymuned leol | Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar y gymuned, gan y byddai darpariaeth prif ffrwd Ysgol Baladeulyn yn parhau, ond gyda darpariaeth arbenigol ADY mewn ffurf 'hybrid' ar y safle. | Niwtral |

# 6. CASGLIAD

Mae'r Asesiad Effaith ar y Gymuned hwn wedi'i lunio fel asesiad pellach yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, ac mae wedi ystyried yn llawn yr holl opsiynau gwreiddiol a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, ynghyd â opsiwn amgen rhesymol a gynigiwyd gan ymgynghorai fel rhan o'r ymgynghoriad statudol.

Dengys yr asesiad mai niwtral fyddai'r effaith debygol ar y gymuned leol pe gweithredir yr opsiwn amgen sy'n golygu parhau â phresenoldeb ysgol weithredol ar safle Ysgol Baladeulyn. Mae hyn yn cynnwys ail-gategoreiddio'r ysgol fel ysgol 'hybrid' prif lif ac ADY. Yn yr achos hyn, byddai presenoldeb ysgol prif lif weithredol yn cael ei gadw yn y pentref, gyda'r opsiwn hybrid i ddarparu addysg arbenigol ADY i ddysgwr gydag anghenion dysgu ychwanegol.

Dengys yr asesiad y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn, gan y byddai hyn yn arwain at golli ysgol o fewn cymuned Nantlle. Cydnabyddir y pryderon a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch goblygiadau hyn ar fywiogrwydd y gymuned; fodd bynnag, nodir bod canran sylweddol o blant y dalgylch (75%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), gan awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos eisoes yn bodoli.

Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda chau Ysgol Baladeulyn, byddai'r Cyngor yn ceisio liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nantlle a'r ysgol amgen, Ysgol Talysarn, a hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo hynny'n briodol i sicrhau bod trigolion a theuluoedd yn ymwybodol o gyfleoedd, cyfleusterau a gweithgareddau'r ysgol amgen. Yn ogystal, pe bai penderfyniad i gau'r ysgol, byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel fframwaith i ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol.

# ASESIAD EFFAITH IEITHYDDOL – YSGOL BALADEULYN

## Mai 2026

# 1. CYFLWYNIAD

Mae cefnogi a datblygu gallu plant Gwynedd i ddysgu a defnyddio eu sgiliau iaith yn allweddol bwysig i strategaethau addysg y Sir.

Mae Ysgol Baladeulyn yn ysgol gymunedol wedi ei lleoli ym mhentref Nantlle, sydd rhyw dair milltir o Benygroes, ac sydd yn darparu addysg ar gyfer dysgwyr rhwng 3-11 oed. Mae gostyngiad wedi bod yn niferoedd dysgwyr Ysgol Baladeulyn dros y blynyddoedd diwethaf. Erbyn hyn, Ionawr 2026, dim ond 6 dysgwr Derbyn i Flwyddyn 6 a 2 dysgwyr Meithrin sy’n mynychu’r ysgol.

Yn eu cyfarfod ar 11 Chwefror 2025, bu i’r Cabinet gefnogi argymhelliad i gychwyn trafodaethau ffurfiol gyda rhanddeiliaid Ysgol Baladeulyn er mwyn ystyried opsiynau ar gyfer y dyfodol. Rhwng Mawrth a Gorffennaf 2025, cynhaliwyd 3 cyfarfod lleol gyda rhan-ddeiliaid Ysgol Baladeulyn ymhle cynigiwyd a thrafodwyd nifer o opsiynau.

Ar 14 Hydref 2025, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar gynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026, a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 10 Rhagfyr a 28 Ionawr, a derbyniwyd 30 ymateb i’r ymgynghoriad.

## 1.1 Y Sefyllfa yng Ngwynedd

Mae ffigyrau yng Nghyfrifiad 2021 yn nodi fod 66% o bobl dros dair oed yn gallu siarad, darllen neu ysgrifennu yn y Gymraeg. Mae Cyfrifiad 2021 hefyd yn nodi bod 64% yn siarad Cymraeg sydd yn ostyngiad ers y cyfrifiad blaenorol, pan oedd y ffigwr yn 65%.

Yng Ngwynedd, fel mewn sawl Awdurdod Lleol eraill yng Nghymru, mae cryn wahaniaeth yng nghanran y siaradwyr Cymraeg o fewn gwahanol wardiau. Ar un eithaf, mewn wardiau megis Aberdyfi, Tywyn a Canol Bangor mae rhwng 26% a 44% o’r boblogaeth yn siarad Cymraeg, tra bod cymaint â 86% yn siarad Cymraeg yn yr ardaloedd mwyaf Cymreig e.e. Hendre a Llanrug.

## 1.2 Cynllun Strategol Y Gymraeg mewn Addysg (CSGA)

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn ddogfen statudol yr Awdurdod Lleol ac yn cyd-fynd gyda blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg (yn unol â thargedau *Cymraeg 2050*). Mae 7 deilliant y disgwylir i Awdurdodau Lleol eu gweithredu er mwyn gwireddu’r deilliannau, sef:

1. Mwy o blant meithrin/3 oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Cymraeg.
2. Mwy o blant dosbarth derbyn/pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
3. Mwy o blant yn parhau i wella sgiliau eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o’u haddysg statudol i un arall.
4. Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg.
5. Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.

6. Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018).
7. Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

## 1.3 Polisi Iaith

**Cynradd**

Yr un yw nod y Polisi Iaith ar draws holl ysgolion cynradd y Sir, sef datblygu gallu pob dysgwr i fod yn hyfedr yn y ddwy iaith erbyn diwedd CA2. Y Gymraeg yw iaith swyddogol yr asesu yn yr ysgol ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, parheir i ddatblygu gafael dysgwyr ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

**Uwchradd**

Yn yr uwchradd, disgwylir i bob dysgwr sydd wedi cyrraedd y lefel angenrheidiol, sef lefel 3+ ar ddiwedd CA2 ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf yn CA3 er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol. Y gobaith yw y gall y dysgwyr hyn astudio'r Gymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd blwyddyn 11.

Mae'r ysgolion uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau fod pob dysgwr yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Nid yw'r Sir yn diffinio ysgolion uwchradd yn ôl categorïau ieithyddol gan fod yr un disgwyliad mewn perthynas â'r Polisi Iaith, sef rhoi cyfle i holl ddysgwyr y Sir fod yn hyfedr ddwyieithog.

## 1.4 Miliwn o siaradwyr erbyn 2050

*Cymraeg 2050* yw strategaeth ddiweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ac mae'n cwmpasu'r tri degawd nesaf. Nodir yn y ddogfen hon dargedau penodol ar gyfer cynyddu'r niferoedd sy'n siarad yr iaith ynghyd â'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae nodau Cymraeg 2050 yn cynnwys:

| | Nod | Targed |
|---|---|---|
| 1. | Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg | 1 Miliwn o siaradwyr erbyn 2050 |
| 2. | Cynyddu defnydd o'r Gymraeg | Defnyddwyr dyddiol o'r Gymraeg yn cynyddu o 10% i 20% |

Pwysleisia'r ddogfen strategol *Cymraeg 2050*: Miliwn o siaradwyr bwysigrwydd cynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg ond hefyd pwysleisir fod cynyddu'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg yr un mor bwysig.

*Mae symud i sefyllfa lle mae miliwn o siaradwyr yn un agwedd ar ein gweledigaeth ar gyfer ffyniant y Gymraeg. Ond mae iaith Gymraeg sy'n ffynnu yn iaith sy'n cael ei defnyddio. Rydym am i'r defnydd o'r Gymraeg fod yn rhan arferol o fywyd bob dydd, fel bod siaradwyr ar bob lefel yn teimlo'n hyderus i'w defnyddio mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol...... Yn ôl Arolwg Defnydd Iaith 2013–15 (Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg 2015) mae cysylltiad clir rhwng rhuglder a pha mor aml y defnyddir y Gymraeg – mae 84% o siaradwyr Cymraeg rhugl yn siarad Cymraeg bob dydd.*

*Ffynhonnell: Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr (2017)*

## 1.5 Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-2033

Mae Safonau'r Gymraeg a osodwyd ar Gyngor Gwynedd gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod disgwyliad ar y Cyngor i lunio strategaeth 5 mlynedd fydd yn dangos sut y bwriedir mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg ar draws y sir. Strategaeth Iaith Gwynedd 2023-2033 yw strategaeth ddiweddaraf Cyngor Gwynedd ar gyfer y Gymraeg. Nodir yn y ddogfen hon dargedau penodol ar gyfer cynyddu'r niferoedd sy'n siarad yr iaith:

| | **Sut byddwn yn cynyddu nifer siaradwyr?** | **Sut byddwn yn mesur ar lefel leol, ac yn ystod cyfnod y strategaeth?** |
|---|---|---|
| 1. | Rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc nad ydynt eto yn siaradwyr Cymraeg (e.e. newydd-ddyfodiaid, plant sydd ddim yn derbyn addysg prif ffrwd), i ddysgu a dod yn siaradwyr Cymraeg hyderus. | Nifer y plant sydd yn cael addysg cyfrwng Cymraeg.<br>Nifer plant sydd yn cael cefnogaeth drwy gyfundrefn drochi'r Adran Addysg. |
| 2. | Rhoi cyfleoedd i oedolion ddod yn siaradwyr newydd drwy gynlluniau cefnogi dysgwyr y Cyngor a darpariaeth gymunedol partneriaid. | Nifer gweithwyr y Cyngor sydd yn derbyn gwersi dysgu Cymraeg.<br>Darpariaeth cyrsiau dysgu Cymraeg cymunedol. |

*Ceir yn y Strategaeth hefyd ymrwymiad i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y meysydd gweithredu canlynol:*

- *Iaith y blynyddoedd cynnar*
- *Iaith Dysgu*
- *Iaith Gwaith a Gwasanaeth*
- *Iaith y Gymuned*
- *Ymchwil a thechnoleg*

# 2. PROFFIL IAITH DALGYLCH BALADEULYN

## 2.1 Cefndir Proffil Iaith Gwynedd

Mae 64.4% o boblogaeth y Sir sydd dros dair oed yn siaradwyr Cymraeg – sylweddol uwch na'r ffigwr trwy Gymru gyfan o 17.8%. Yng Ngwynedd, mae'r gallu i siarad Cymraeg uchaf yn ward Hendre (mae 86% yn siarad Cymraeg), ac ar ei isaf yn ardal Canol Bangor (25.6%).

## 2.2 Wardiau

Mae Ysgol Baladeulyn wedi ei lleoli yn ward Llanllyfni, ac mae dalgylch yr ysgol yn cynnwys rhan o ward Llanllyfni, rhan o ward Dolbenmaen, rhan o ward Glaslyn a rhan o ward Waunfawr. Mae Ysgol Talysarn wedi ei lleoli yn ward Llanllyfni. Mae proffil ieithyddol wardiau'r ysgolion hyn wedi ei grynhoi yn y tabl isod:

| | Llanllyfni | Dolbenmaen | Glaslyn | Waunfawr | Gwynedd | Cymru |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hunaniaeth Gymreig yn unig** | 1,316 (67.1%) | 691 (59%) | 934 (57.2%) | 962 (65.9%) | 69,560 (59.3%) | 1,715,975 (55.2%) |
| **Dim hunaniaeth Gymreig** | 28.2% | 37.8% | 39.2% | 30.8% | 36.3% | 36.7% |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Poblogaeth 3+ mlwydd oed** | 1,876 (100%) | 1,146 (100%) | 1,592 (100%) | 1,411 (100%) | 114,308 (100%) | 3,018,172 (100%) |
| **Gallu siarad Cymraeg** | 1,373 (73.2%) | 752 (65.6%) | 1,054 (66.2%) | 1,018 (72.1%) | 73,560 (64.4%) | 538,296 (17.8%) |
| **Dim sgiliau Cymraeg** | 315 (16.8%) | 290 (25.3%) | 410 (25.8%) | 291 (20.6%) | 29, 977 (26.2%) | 2,259,017 (74.8%) |
| **Gallu deall Cymraeg ar lafar yn unig** | 137 (7.3%) | 78 (6.8%) | 109 (6.8%) | 71 (5%) | 8,166 (7.1%) | 156,762 (5.2%) |
| **Gallu siarad Cymraeg ond ddim yn gallu darllen nac ysgrifennu Cymraeg** | 124 (6.6%) | 84 (7.3%) | 83 (5.2%) | 65 (4.6%) | 6,142 (5.4%) | 68,391 (2.3%) |
| **Gallu siarad a darllen Cymraeg ond ddim yn gallu ysgrifennu Cymraeg** | 56 (3%) | 27 (2.4%) | 36 (2.3%) | 48 (3.4%) | 3,170 (2.8%) | 33,971 (1.1%) |
| **Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg** | 1,157 (61.7%) | 628 (54.8%) | 927 (58.2%) | 891 (63.1%) | 63,256 (55.3%) | 429,313 (14.2%) |
| **Gallu ysgrifennu Cymraeg ond ddim yn gallu siarad na darllen Cymraeg** | 8 (0.4%) | 4 (0.3%) | 2 (0.1%) | 5 (0.4%) | 387 (0.3%) | 4,970 (0.2%) |
| **Gallu darllen ac ysgrifennu Cymraeg ond ddim yn gallu siarad Cymraeg** | 14 (0.7%) | 13 (1.1%) | 5 (0.3%) | 16 (1.1%) | 1,004 (0.9%) | 17,560 (0.6%) |
| **Cyfuniad arall o sgiliau Cymraeg** | 36 (1.9%) | 13 (1.1%) | 8 (0.5%) | 14 (1%) | 993 (0.9%) | 6,621 (0.2%) |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, Swyddfa Ystadegol Gwladol*

## 2.3 Ysgol Baladeulyn

Ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3 yw Ysgol Baladeulyn.

Dengys y tabl isod fod y mwyafrif o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl.

| Ysgol | Siarad Cymraeg yn rhugl gartref | Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl | Dim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl | Dim yn siarad Cymraeg gartref a dim yn rhugl | Dim yn siarad Cymraeg o gwbl |
|---|---|---|---|---|---|
| **Baladeulyn** | 29% | 57% | 14% | 0% | 0% |

*Ffynhonnell: Canran o nifer yr ymatebwyr Ionawr 2026*

## 2.4 Ysgolion cyfagos

Ysgolion cyfrwng Cymraeg, Categori 3 yw ysgolion Brynaerau, Llanllyfni, Nebo, Bro Lleu, Talysarn a Bro Llifon.

Mae data ieithyddol ar gyfer yr ysgolion cyfagos i'w gweld isod.

| Ysgol | Siarad Cymraeg yn rhugl gartref | Siarad Cymraeg gartref ond nid yn rhugl | Dim yn siarad Cymraeg gartref ond yn rhugl | Dim yn siarad Cymraeg gartref a dim yn rhugl | Dim yn siarad Cymraeg o gwbl |
|---|---|---|---|---|---|
| **Brynaerau** | 64% | 11% | 2% | 11% | 12% |
| **Llanllyfni** | 68% | 8% | 2% | 11% | 12% |
| **Nebo** | 56% | 0% | 22% | 11% | 11% |
| **Bro Lleu** | 69% | 4% | 1% | 9% | 17% |
| **Talysarn** | 37% | 15.5% | 3% | 19% | 25.5% |
| **Bro Llifon** | 85% | 2% | 2% | 3% | 8% |

*Ffynhonnell: Canran o nifer yr ymatebwyr Ionawr 2026*

## 2.5 Gweithgareddau ar ôl ysgol

Dyma grynodeb o'r hyn mae Ysgol Baladeulyn a'r ysgolion eraill dalgylch uwchradd Dyffryn Nantlle yn ei gynnig ar safleoedd ysgol.

| | Baladeulyn | Talysarn | Bro Lleu | Llanllyfni | Brynaerau | Bro Llifon | Nebo |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grwpiau Chwarae (Gwyliau'r ysgol)** | | | ✓ | | | | |
| **Aelwyd yr Urdd** | | | | ✓ | | ✓ | ✓ |
| **Bore/Noson Goffi** | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | |
| **Cylch/Ysgol Feithrin** | | | ✓ | ✓ | | ✓ | |
| **Clwb/Clwb ar ôl ysgol / Gweithgaredd Chwaraeon** | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

Gwelir yn y tabl uchod mai dim ond gweithgareddau megis Bore/Noson Goffi a gynhelir yn Ysgol Baladeulyn sydd yn sylweddol llai na'r ddarpariaeth ar ôl ysgol a gynhelir yn ysgolion eraill y dalgylch. Golyga hyn fod llai o gyfleoedd i ddysgwyr Ysgol Baladeulyn fanteisio ar gweithgareddau ar ôl ysgol i ddefnyddio a datblygu'r Gymraeg.

## 2.6 Gweithgareddau Cymunedol

Mae Canolfan Llys Llywelyn wedi ei lleoli oddeutu 0.5 milltir i ffwrdd o Ysgol Baladeulyn ac yn cynnal nifer o weithgareddau. Dyma fraslun o'r elfennau cymunedol mae'r ysgol yn ymwneud â hwy yn rheolaidd;

- Ffair Haf
- Ffair Nadolig
- Cyngherddau
- Bore Coffi
- Marchnad

### 2.7 Tystiolaeth Ychwanegol

**Ysgol Baladeulyn**

Mae adroddiad Estyn yn 2017 yn dweud:

*"Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae tua thri chwarter y disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae ethos Cymreig cryf iawn yn bodoli yn yr ysgol a'r ddarpariaeth yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd llawn o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol. Mae disgyblion yn dangos balchder tuag at yr iaith a gwerthfawrogiad amlwg o ddiwylliant a hanes yr ardal leol."*

Adroddiad arolwg Estyn Ysgol Baladeulyn Tachwedd 2017

**Ysgol Talysarn**

Mae adroddiad Estyn 2025 yn nodi:

*"Trwy fentrau fel 'Clwb Clebran' a 'Tîm Taran', maent yn rhoi cyfrifoldebau pwrpasol i ddisgyblion er mwyn hybu eu cyfoedion i siarad Cymraeg yn naturiol yn ystod amseroedd egwyl ac mewn cyd-destunau anffurfiol eraill. Mae hyn yn arwain at welliant amlwg ym medrau llafar Cymraeg bron bob disgybl ac yn meithrin balchder at eu hunaniaeth Gymraeg."*

*Adroddiad arolwg Estyn Ysgol Talysarn Tachwedd 2025*

# 3. Asesiad o'r effaith ar yr iaith Gymraeg

## 3.1 Yr Opsiynau

- *Gwneud dim – parhau gyda'r sefyllfa bresennol*

Byddai cadw'r drefn bresennol yn golygu fod Ysgol Baladeulyn yn parhau yn yr un modd, gyda'r un strwythur staffio.

Noder, er bod yr achos dros newid wedi ei sefydlu, mae'r opsiwn Gwneud dim wedi ei gynnwys yn yr asesiad at ddiben cymharu.

- *Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)*

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Gan ystyrir Ysgol Talysarn fel yr ysgol gyfagos i ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn, byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol, rhwng 3 ysgol, gan fod Ysgol Talysarn eisoes wedi ffedereiddio gydag Ysgol Brynaerau.

Ni ragwelir y byddai ffederaleiddio yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda chyfleoedd i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth, a chydweithio ar gyfer yr ysgol.

- *<u>Ffederaleiddio gydag ysgol gyfagos gan ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn</u>*

Byddai'r opsiwn yma yn sicrhau parhad ym mhresenoldeb yr ysgol ym mhentref Nantlle trwy drefniant cyd-weithio gydag ysgol neu ysgolion cyfagos, dan arweiniad pennaeth neu benaethiaid ac un corff llywodraethol. Byddai cyrff llywodraethol yr ysgolion unigol yn cael eu diddymu a byddai corff llywodraethu ffederal (newydd) yn cael ei ffurfio. Byddai hunaniaeth yr ysgol o dan sylw (yn cynnwys enw, ethos, a gwisg ysgol) yn parhau, a byddai'n galluogi'r posibilrwydd o rannu staff, adnoddau, adeiladau, ac arbenigedd.

Gan ystyrir Ysgol Talysarn fel yr ysgol cyfagos i ffederaleiddio gydag Ysgol Baladeulyn, byddai'r opsiwn yma'n golygu sefydlu trefniant cydweithio ffurfiol rhwng 3 ysgol gan fod Ysgol Talysarn eisoes wedi ffedereiddio gydag Ysgol Brynaerau.

Yn ogystal â ffederaleiddio, byddai'r opsiwn yma hefyd yn golygu ychwanegu lleoliad ar gyfer uned ADY yn Ysgol Baladeulyn.

Ni ragwelir y byddai ffederaleiddio yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg yn yr ysgol gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau, gyda chyfleon i gryfhau sefyllfa arweinyddiaeth, a chydweithio ar gyfer yr ysgol.

- *<u>Cau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)</u>*

Golygai'r opsiwn yma y byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, ac y byddai dysgwyr dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn yn cael cynnig lle yn Ysgol Talysarn (yr ysgol amgen).

Mae'r tabl ar y dudalen nesaf yn cynnwys asesiad o effaith cau Ysgol Baladeulyn ac addysgu'r dysgwyr yn Ysgol Talysarn, ar yr iaith Gymraeg o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol. Mae'r tabl hefyd yn amlinellu'r cyfleoedd ychwanegol ar gyfer cryfhau'r iaith Gymraeg, a dulliau lliniaru unrhyw effaith negyddol allai ddeillio o'r cynnig.

- *<u>Uno ysgolion lleol er mwyn cefnogi a chynnal Ysgol Baladeulyn – Ysgol aml-safle</u>*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu cau ysgolion lleol, gan gynnwys Ysgol Baladeulyn, gan greu ysgol newydd ar draws nifer o safleoedd, gan gynnwys safle presennol Ysgol Baladeulyn.

Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma yn cael effaith negyddol ar yr iaith Gymraeg. Yn ddibynnol ar strwythur yr ysgol aml-safle, gall fod cyfleoedd i ddysgwyr gael mynediad at ystod ehangach o adnoddau addas, darpariaeth uwch yn nhermau staffio, a gallent fod yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion.

- *<u>Ychwanegu ardal arbenigol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn Ysgol Baladeulyn</u>*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gydag Ysgol Baladeulyn gan ychwanegu ardal benodol arbenigol i blant gyda anghenion dysgu ychwanegol ar safle'r ysgol.

Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai Ysgol Baladeulyn yn parhau.

- *Cynnwys Uned Iaith ar safle Ysgol Baladeulyn*

Byddai'r opsiwn yma yn golygu parhau gydag Ysgol Baladeulyn gan ychwanegu uned iaith ar safle'r ysgol. Byddai'n cynnig gwasanaeth trochi i'r plant yn y Gymraeg sydd ei angen cyn ymuno a'u hysgolion dewisol yn llawn amser.

Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma'n cael effaith ar yr iaith Gymraeg yn yr ysgol gan na fyddai newid i'r ddarpariaeth addysg a ddarperir gan Ysgol Baladeulyn. Er hynny, mae'n debygol y bydd effaith bositif ar iaith Gymraeg y plant fydd yn mynychu'r uned iaith.

## 3.2 Opsiynau amgen rhesymol a gynigiwyd gan ymgynghorai fel ymateb i'r ymgynghoriad

- **Ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd 'hybrid' prif ffrwd ac ADY er mwyn cynnig darpariaeth arbenigol i'r ardal leol.**

Byddai'r opsiwn yma yn golygu ail-gategoreiddio Ysgol Baladeulyn fel ysgol gynradd 'hybrid' prif ffrwd sydd yn cynnwys addysg arbenigol i blant gyda anghenion dysgu ychwanegol ar safle'r ysgol. Byddai'r opsiwn hyn yn cynnig addysg hybrid i ddysgwyr cynradd yn yr ardal leol i fynychu Ysgol Baladeulyn fel ysgol prif ffrwd a/neu gyda mynediad i ddarpariaeth addysg arbenigol ADY.

**Ni ragwelir y byddai'r opsiwn yma yn cael effaith ar yr iaith Gymraeg gan y byddai darpariaeth prif ffrwd Ysgol Baladeulyn yn parhau.**

## 3.2 Asesiad o’r effaith ar yr iaith Gymraeg

Asesiad o’r effaith ar yr iaith Gymraeg – *Cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i’r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn)*

| **Rhan 1** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Meini Prawf Effaith** | **Disgrifiad** | **Statws o’r effaith a’r gwaith** | **Oes unrhyw fesurau wedi’u hadnabod i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i greu mwy o gyfleoedd positif** | **Effaith derfynol (yn dilyn dulliau lliniaru)** |
| **Iaith yr ysgol (ffurfiol)** | *Yn yr ymatebion i’r ymgynghoriad, mynegwyd yn glir fod y Gymraeg yn cael ei defnyddio’n gyson ac yn gadarn fel prif iaith addysgu yn yr ysgol bresennol. Codwyd pryder y byddai trosglwyddo dysgwyr i ysgol arall yn arwain at brofiad addysgol lle mae’r Gymraeg yn llai amlwg fel prif gyfrwng ffurfiol. Cyfeiriwyd at waith Ysgol Baladeulyn o ran y Siarter Iaith, gan nodi bod yr ysgol wedi ennill gwobr aur.*<br><br>Mae Ysgol Baladeulyn yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng. Gan fod Ysgol Talysarn hefyd yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng, deuir i’r casgliad na fyddai’r cynnig yn cael effaith ar iaith addysg y plant. | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Iaith yr ysgol (anffurfiol)** | *Nodwyd pryder gan ymatebwyr i’r ymgynghoriad y gallai symud dysgwyr i ysgol â phroffil ieithyddol gwannach leihau lefel trochi Cymraeg ffurfiol a chyson drwy’r cwricwlwm. Nodwyd bod y trochi hwn yn arbennig o bwysig i gynnydd a hyder ieithyddol plant, yn enwedig i’r rhai nad ydynt yn derbyn yr un lefel o Gymraeg yn y cartref. Cyfeiriwyd at wahaniaethau amlwg yn y defnydd o’r Gymraeg rhwng yr ysgol bresennol ac ysgolion amgen posibl.* | Positif | Amherthnasol | Amherthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cydnabyddir y pryder nodwyd uchod, gan nodi roedd data CYBLD Ionawr 2025 yn dangos fod 55% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn. Erbyn hyn, mae ystadegau diweddaraf CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn. O ganlyniad i hyn, ni ragwelir effaith negyddol ar y meini prawf yma.<br><br>Gan y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, gall y cynnig gryfhau cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda'u cyfoedion. O ganlyniad i hyn, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u chyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth. | | | |
| **Mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg** | Mae Ysgol Talysarn yn ysgol Gymraeg ei chyfrwng, fel Ysgol Baladeulyn. Ni ragwelir felly y byddai'r cynnig yn effeithio ar y meini prawf hwn. | Niwtral | Amherthnasol | Amherthnasol |
| **Darpariaeth anstatudol** | Byddai gan ddysgwyr fynediad at ddarpariaeth uwch yn nhermau staffio, a byddent yn rhan o grŵp mwy o gyfoedion o'r un oedran. | Positif | Gallai'r awdurdod lleol a Chorff Llywodraethol Talaerau (Ffederasiwn Ysgol Talysarn ac Ysgol Brynaerau) drafod dulliau i sicrhau bod dysgwyr yn gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol. | Positif |
| **Gweithgareddau cyn / ar ôl ysgol** | Mae Ysgol Talysarn yn ysgol fwy o ran niferoedd o ddysgwyr felly byddai'r grwpiau cyfoedion yn fwy. Fel y nodir yn adran 2.5 o'r Asesiad Effaith, mae Ysgol Talysarn yn cynnig gweithgareddau ar ôl ysgol megis clwb ar ôl ysgol neu gweithgaredd chwaraeon. | Positif | Gallai'r Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Talaerau (Ffederasiwn Ysgol Talysarn ac Ysgol Brynaerau) ystyried unrhyw gyfleoedd ychwanegol ar gyfer cynnal | Positif |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | gweithgareddau ar ôl ysgol, gan sicrhau fod trefniadau mewn lle i gynnwys dysgwyr dalgylch Baladeulyn. | |
| **Defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned** | *Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, nodwyd bod yr ysgol yn chwarae rôl bwysig wrth integreiddio teuluoedd newydd, gan gynnwys rhai o gefndiroedd Saesneg eu hiaith, i fywyd Cymraeg y pentref. Mynegwyd pryder y gallai colli'r ysgol danseilio'r broses hon, gan arwain at lai o ddefnydd naturiol o'r Gymraeg ymhlith teuluoedd newydd. Pwysleisiwyd bod yr ysgol yn cyfrannu'n sylweddol at ddefnydd y Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol, megis cyfarfodydd cymdeithasol, chwarae ar ôl ysgol a rhyngweithio rhwng rhieni a thrigolion lleol.*<br><br>Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol yn deillio o wireddu'r cynnig, gan na fydd rhieni/gwarchodwyr/teuluoedd a thrigolion lleol yn cyfarfod yn ddyddiol yn nghymuned Nantlle wrth ollwng/casglu plant o'r ysgol.<br><br>Mae'r ysgol yn gwahodd y gymuned i'r ysgol ar gyfer gweithgareddau'r ysgol o fewn oriau'r ysgol a thu allan i oriau'r ysgol fel nosweithiau coffi, cyflwyniadau gan y plant a gwasanaethau. Er hyn, nodir bod Canolfan Llys Llywelyn yn ogystal â Trigonos Plas Baladeulyn ar gael ar gyfer cynnal gweithgareddau cymunedol.<br><br>Nodir hefyd bod canran sylweddol o blant y dalgylch (75%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), sy'n awgrymu bod lefel yr ymwneud dyddiol â'r ysgol fel mannau cymdeithasol neu ieithyddol yn amrywio ymhlith teuluoedd nghymuned Nantlle. | Negyddol | Gall yr Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Talaerau (Ffederasiwn Ysgol Talysarn ac Ysgol Brynaerau) ystyried dulliau o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol.<br><br>Pe gweithredir y cynnig, bydd rhaid i'r Awdurdod ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. Nodir bod Canolfan Llys Llywelyn yn ogystal a Trigonos Plas Baladeulyn ar gael ar gyfer cynnal gweithgareddau cymunedol.<br><br>I liniaru'r effaith ar y Gymraeg o fewn y gymuned nodir cyfleoedd i sicrhau fod cymuned Nantlle yn ymwybodol o weithgarwch yr ysgol amgen, ac anogir cydweithio cymunedol rhwng | Niwtral/ Rhannol Negyddol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Effaith ar yr economi leol:**<br><br>Er na ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith sylweddol negyddol ar yr economi lleol yn Nantlle, cydnabyddir, pe byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, y byddai'n arwain at leihad mewn cyfleoedd cyflogaeth cyfrwng Cymraeg ym mhentref Nantlle. | | Ysgol Talysarn a chymuned Nantlle, lle'n briodol. | |

| | |
|---|---|
| **Rhan 2 – Sut fydda y cynnig yn effeithio ar/cyfrannu tuag at/cyd-fynd â Safonau'r Gymraeg, polisïau iaith, strategaethau a chanllawiau eraill perthnasol ynglŷn â'r iaith Gymraeg** | |
| **Strategaeth Iaith Gwynedd 2023** | Nodir isod grynodeb o effaith a ragwelir ar y feysydd gweithredu y Strategaeth Iaith:<br><br>***Iaith y blynyddoedd cynnar*:**<br><br>Gan fod Cylch Meithrin wedi ei lleoli ym mhentref Talysarn, ac yn cyd-weithio gydag Ysgol Talysarn (yr ysgol amgen), rhagwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith bositif ar iaith y blynyddoedd cynnar.<br><br>***Iaith Dysgu*:**<br><br>Mae Ysgol Baladeulyn yn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3, ac mae Ysgol Talysarn hefyd yn ysgol Gymraeg Categori 3 yn yr un modd, deuir i'r casgliad felly na fyddai'r cynnig yn cael effaith ar iaith addysg y plant.<br><br>***Iaith Gwaith a Gwasanaeth*:**<br><br>*Nododd ymatebwyr i'r ymgynghoriad fod presenoldeb Ysgol Baladeulyn yn cryfhau statws a hyder y Gymraeg mewn cyd-destunau ymarferol, gan gefnogi defnydd yr iaith ymhlith teuluoedd a siaradwyr newydd mewn bywyd beunyddiol. Mynegwyd pryder y gallai colli'r ysgol arwain at leihad graddol yn y defnydd o'r Gymraeg mewn gwasanaethau a gweithgareddau cymunedol. Codwyd sylw cadarnhaol cryf at waith Ysgol Baladeulyn o ran hyrwyddo'r Gymraeg drwy'r Siarter Iaith, gan nodi bod yr ysgol wedi ennill gwobr aur am ansawdd a chysondeb ei darpariaeth.*<br><br>Cydnabyddir, pe gweithredir y cynnig, y byddai peth effaith negyddol ar yr iaith yn sgil colli presenoldeb ysgol cyfrwng Cymraeg, categori 3 ym mhentref Nantlle sy'n gwasanaethau'r ardal, a gan y byddai'n arwain at ddiswyddiadau staff/gweithlu'r ysgol. |

| | |
|---|---|
| | Fodd bynnag, nodir y bod yr ysgol amgen (Ysgol Talysarn) fyddai'n gwasanaethu ardal Nantlle pe gweithredir y cynnig, hefyd yn ysgol cyfrwng Gymraeg. Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn effeithio ar iaith gwaith a'r gwasanaeth a ddarperir yn yr ysgol amgen.<br><br>***Iaith y Gymuned:***<br><br>*Mynegwyd pryder cryf gan ymatebwyr yr ymgynghoriad y gallai'r cynigion gael effaith andwyol ar y Gymraeg a bywyd y gymuned, gyda'r farn bod yr ysgol yn ganolog i gynnal y Gymraeg fel iaith fyw a naturiol ym mywyd y pentref. Nodwyd bod yr ysgol yn gweithredu fel canolbwynt pwysig i fywyd Cymraeg y pentref, gan gyfrannu at ddefnydd yr iaith y tu hwnt i oriau ysgol a chyfeirir sut mae'r ysgol yn integreiddio teuluoedd newydd, gan gynnwys rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl, i fywyd Cymraeg lleol. Mynegwyd pryder y gallai colli'r ysgol danseilio'r ecosystem ieithyddol leol, gan arwain at leihad graddol yn y defnydd cymunedol o'r Gymraeg.*<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod, pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol ar yr iaith o fewn y gymuned yn deillio o wireddu'r cynnig, e.e gan na fydd rhieni/gwarchodwyr/teuluoedd yn cyfarfod yn ddyddiol yng nghymuned Nantlle wrth ollwng/casglu plant o'r ysgol.<br><br>Mae'r ysgol yn gwahodd y gymuned i'r ysgol ar gyfer gweithgareddau'r ysgol o fewn oriau'r ysgol a thu allan i oriau'r ysgol fel nosweithiau coffi, cyflwyniadau gan y plant a gwasanaethau. Er hyn, mae Canolfan Llys Llywelyn yn ogystal a Trigonos Plas Baladeulyn ar gael ar gyfer cynnal gweithgareddau.<br><br>Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol, gall yr Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Talaerau (Ffederasiwn Ysgol Talysarn ac Ysgol Brynaerau) ystyried dulliau o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol. Yn ogystal, pe gweithredir y cynnig, bydd rhaid i'r Awdurdod ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |
| **Cymraeg 2050, Llywodraeth Cymru** | *Drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mynegwyd pryder y gallai'r cynnig gael effaith negyddol gan fod yr ysgol yn cael ei hystyried yn ganolog i gynnal defnydd dyddiol o'r Gymraeg ymhlith plant, teuluoedd a'r gymuned ehangach. Nodwyd hefyd bod yr ysgol yn darparu trochi ieithyddol cryf, yn cefnogi integreiddio teuluoedd newydd i fywyd Cymraeg, ac yn normaleiddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r dosbarth mewn bywyd cymunedol. Mynegwyd y barn y gallai colli'r ysgol arwain at leihad graddol yn y defnydd o'r Gymraeg.* |

| | |
|---|---|
| | Nodir fod unrhyw drafodaethau yn ymwneud ag adrefnu angen nodi ymdrech Llywodraeth Cymru i gyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.<br><br>Pe byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn yn cael ei wireddu, yna rhagwelir y bydd rhai elfennau o ddigwyddiadau cymunedol yn cael eu heffeithio. Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol, gall yr Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Ffederasiwn Talaerau (Ffederasiwn Ysgol Talysarn ac Ysgol Brynaerau) ystyried dulliau o hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol. Yn ogystal, pe gweithredir y cynnig, bydd rhaid i'r Awdurdod ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd.<br><br>O ran y ddarpariaeth addysgol, nodir bod Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn yn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, categori 3. O ganlyniad, pe gweithredir y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Talysarn, byddai dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3.<br><br>Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg, yn bennaf gan:<br>• fod ystadegau CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn<br>• y byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, categori 3.<br>• y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig yn cryfhau'r cyfleodd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion.<br><br>Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach |
| **I ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd (Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2022-2032)** | Mae Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn yn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, categori 3.<br><br>Mae Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn, yn gweithredu amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 Cyngor Gwynedd. Mae hyn yn cynnwys:<br>• Bod holl ddysgwyr y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bod y disgwyliad hwnnw yn gyson ar draws pob un o'r ysgolion. |

| | |
|---|---|
| | • Bod darpariaeth addas i alluogi pob dysgwr i ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i ysgolion barhau i feithrin sgiliau'r dysgwyr hynny sy'n Gymry Cymraeg, a chyflwyno'r Gymraeg i'r rhai hynny sy'n ddysgwyr.<br>• Bod holl sefydliadau addysg y sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol, yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.<br><br>O ganlyniad, pe gweithredir y cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a throsglwyddo dysgwyr i Ysgol Talysarn, byddai dysgwyr yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3, sy'n gweithredu amcanion a chefnogi targedau'r CSGA.<br><br>Ar sail yr uchod, ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith negyddol ar gyflawniad Deilliannau 1, 2, 3, 5 a 6 o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032, Cyngor Gwynedd, sef:<br><br>**Deilliant 1**: Mwy o blant meithrin/3 oed yn cael addysg cyfrwng Cymraeg.<br>**Deilliant 2:** Mwy o blant dosbarth derbyn/5 oed yn cael addysg cyfrwng Cymraeg.<br>**Deilliant 3**: Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod addysg o'u haddysg statudol i'r llall.<br>**Deilliant 5:** Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.<br>**Deilliant 6**: Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ("ADY") (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)<br><br>O ganlyniad, deuir i'r casgliad y byddai gweithredu'r cynnig yn cyd-fynd ag amcanion Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32, a'r targedau a gymeradwywyd yn y Cynllun Strategol y Gymraeg. |
| **Sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg, ac yn yr achosion lle byddai'n lleihau'r ddarpariaeth, nodwch pam bydd y ddarpariaeth yn cael ei lleihau** | Byddai'r cynnig yn golygu fod ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3 (Ysgol Baladeulyn) yn cau. Fodd bynnag, pe gweithredir y cynnig, byddai dysgwyr yn cael cynnig lle mewn ysgol amgen, sydd hefyd yn ysgol cyfrwng Cymraeg, Categori 3, sef Ysgol Talysarn. Mae gan Ysgol Talysarn capasiti digonol ar gyfer dysgwyr presennol Ysgol Baladeulyn sydd yn byw yn nalgylch Baladeulyn. |
| **Cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011)** | Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y broses statudol gyfan mewn perthynas ag adolygu dyfodol Ysgol Baladeulyn wedi'i chynnal yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg 88–93 o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Yn unol â Safonau 88, 89 a 90, rhoddwyd ystyriaeth gydwybodol i'r effeithiau posibl y gallai'r penderfyniad polisi eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, gan gynnwys ystyried yr effeithiau cadarnhaol ac andwyol posibl, sut y gellid llunio neu addasu'r cynnig er mwyn sicrhau effeithiau mwy cadarnhaol, a sut y gellid lleihau unrhyw effeithiau andwyol posibl. Yn ogystal, yn unol â Safonau 91, 92 a 93, ystyriwyd a cheisiwyd barn drwy'r broses ymgynghori statudol ynghylch yr effeithiau ieithyddol hyn, gan gynnwys barn ar sut y gellid llunio neu addasu'r cynnig er |

| | |
|---|---|
| | mwyn cynyddu effeithiau cadarnhaol neu leihau effeithiau andwyol ar y Gymraeg. Cefnogwyd y gofynion hyn drwy gynnal yr Asesiad Effaith Ieithyddol hwn, ynghyd ag asesiadau effaith cysylltiedig, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Cydraddoldeb, a nodir bod yr asesiadau hyn wedi'u hadolygu a'u diweddaru yn dilyn ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol. |

# 5. CASGLIAD

Ein disgwyliadau yw bod holl ddysgwyr y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys, oed perthnasol  er mwyn iddynt fod yn aelodau cyflawn o’r gymdeithas ddwyieithog maent yn rhan ohoni. Bydd angen i’r cynigion ar gyfer ad-drefnu gymryd ystyriaeth lawn o’r holl effeithiau ieithyddol. Bydd cynnal a gwell defnydd o’r Gymraeg fel iaith addysgol a chymdeithasol ymhlith plant yn ystyriaeth allweddol wrth lunio cynigion o fewn yr ardal. Mae ymatebion i’r ymgynghoriad statudol wedi tynnu sylw at ystod eang o safbwyntiau ynghylch effaith bosibl y cynnig ar y Gymraeg. Nodwyd bod yr ysgol darparu addysg cyfrwng Cymraeg arbennig ac yn creu amgylchedd lle mae plant yn siarad Cymraeg yn hyderus ac yn gyson, gan gryfhau’r iaith fel prif gyfrwng cymdeithasol yn ogystal ag addysgol.  sydd yn hyderus ac yn gyson, gan gryfhau’r iaith fel prif gyfrwng cymdeithasol yn ogystal ag addysgol. Mynegwyd bod yr ysgol yn chwarae rôl bwysig wrth integreiddio teuluoedd newydd, gan gynnwys rhai o gefndiroedd Saesneg eu hiaith, i fywyd Cymraeg y pentref. Pwysleisiwyd bod yr ysgol yn cyfrannu’n sylweddol at ddefnydd y Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol, megis cyfarfodydd cymdeithasol, chwarae ar ôl ysgol a rhyngweithio rhwng rhieni a thrigolion lleol. Mynegwyd pryder y gallai colli’r ysgol danseilio’r ecosystem ieithyddol leol, gan arwain at leihad graddol yn y defnydd cymunedol o’r Gymraeg.

Mae’r Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch rôl Ysgol Baladeulyn wrth gefnogi defnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref, ac yn derbyn bod y sylwadau’n tynnu sylw at effaith andwyol bosibl ar fywiogrwydd ieithyddol lleol y tu allan i’r ddarpariaeth addysgol ffurfiol.  Fodd bynnag, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw nad yw’r cynnig arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg na chyfleoedd ieithyddol dysgwyr, am y rhesymau canlynol:

- Mae data CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn.
- Mae’r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i’r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.
- Rhagwelir y byddai’r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o’r un grŵp oedran, a rhagwelir bydd y cynnig arfaethedig yn cryfhau’r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o’u cyfoedion.

Ar sail yr uchod, o weithredu’r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio’r Gymraeg yn anffurfiol gyda’u cyfoedion tu mewn a thu allan i’r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a’r defnydd anffurfiol o’r iaith yn gryfach.

Ar yr un pryd, gan ystyried sylwadau’r ymgynghoriad, mae’r Cyngor yn cydnabod y gallai’r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i’r cyd-destun addysgol; fodd bynnag, nodir y gellid ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd yr adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy’n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd.

Yn y cyd-destun addysgol, ar sail yr uchod, rhagwelir, o weithredu’r cynnig, y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio’r Gymraeg yn anffurfiol gyda’u cyfoedion tu mewn a thu allan i’r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a’r defnydd anffurfiol o’r iaith yn gryfach.

# ASESIAD EFFAITH
# DEDDF LLESIANT A CHENDEDLAETHAU'R DYFODOL
# – YSGOL BALADEULYN

## Mai 2026

# 1. CYFLWYNIAD

Rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i'r egwyddorion o fewn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau Gwynedd.
Gweledigaeth y Cyngor yw:

*Ein gweledigaeth fel Cyngor yw cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymuned mewn sir sy'n un o'r siroedd gorau i fyw ynddi.*

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcanion llesiant sydd yn ategu'r nodau llesiant cenedlaethol gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc
- Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng
- Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau
- Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau
- Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned
- Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd
- Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyswllt rhwng ein hamcanion llesiant a'r nodau llesiant cenedlaethol.

| | Llewyrchus | Cydnerth | Iachach | Cyfartal | Cymunedau Cydlynus | Diwylliant bywiog lle mae' r iaith Gymraeg yn ffynnu | Yn gyfrifol ar lefel fyd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| GWYNEDD YFORY<br>Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc | ■ | | ■ | ■ | | ■ | |
| GWYNEDD LEWYRCHUS<br>Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng | ■ | ■ | | ■ | ■ | ■ | |
| GWYNEDD GLYD<br>Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau | | ■ | ■ | ■ | ■ | | |
| GWYNEDD OFALGAR<br>Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau | ■ | | ■ | ■ | ■ | | |
| GWYNEDD GYMRAEG<br>Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. | | | | | ■ | ■ | |
| GWYNEDD WERDD<br>Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd | ■ | ■ | | | ■ | | ■ |
| GWYNEDD EFFEITHLON<br>Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon | ■ | | | ■ | | | |

Mae gan yr Adran Addysg rôl i hyrwyddo nodau llesiant y Ddeddf ymysg dysgwyr drwy eu gweithgareddau a'u prosiectau. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella yn "Cynllun Gwynedd 2023-2028".

## 2.SUT MAE'R CYNNIG YN CWRDD AG AMCANION LLES CYNGOR GWYNEDD?

**Y cynnig:**
Ar 14 Hydref 2025, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar gynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026, a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 10 Rhagfyr 2025 a 28 Ionawr 2026.

| Amcanion | |
|---|---|
| **Rhoi'r cychwyn gorau posib mewn bywyd i'n plant a'n pobl ifanc** | Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, mynegwyd gan ymatebwyr fod yr ysgol yn darparu cychwyn cadarn a chefnogol mewn bywyd i blant drwy amgylchedd bach a meithringar sy'n cefnogi lles, hyder a datblygiad cymdeithasol. Yn ogystal â hyn, nodwyd bod dysgwyr bregus yn dibynnu ar yr amgylchedd bach a sefydlog i ddatblygu a chynnal eu sgiliau iaith. Mynegwyd pryder y gallai symud plant i ysgol fwy ac ymhellach oddi cartref danseilio'r manteision hyn, gan gynyddu straen a gwneud pontio'n anodd i ddysgwyr, yn enwedig i ddysgwyr bregus neu dysgwyr sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod gall fod peth effaith negyddol ar les dysgwyr yn ystod y cyfnod pontio. Pe byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, byddai'r awdurdod a'r ysgol amgen cydweithio'n agos â'r ysgol sy'n cau, gyda'r dysgwyr a'u teuluoedd, i sicrhau trosglwyddiad esmwyth ac i gefnogi'r dysgwyr wrth ymgartrefu yn eu hysgolion newydd. Rhagwelir y byddai trefniadau pontio sydd wedi'u cynllunio'n ofalus, gyda chefnogaeth briodol, yn gallu lliniaru effeithiau negyddol ac yn cefnogi parhad cynnydd addysgol. Fel y nodir yn Llawlyfr Rhieni Gwynedd, mae gan ddysgwyr ADY hawl i barhau i dderbyn y ddarpariaeth sydd wedi'i nodi yn eu Cynllun Datblygu Unigol, ac mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n parhau hyd yn oed pan fo trefniadau ysgol yn newid. Mae'r Cyngor yn ymrwymo i roi blaenoriaeth i anghenion unigol, gan gynnwys i blant bregus ac/neu gydag anghenion dysgu ychwanegol, pe byddai'r ysgol yn cau.<br><br>Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau o'r farn y byddai'r cynnig yn sicrhau fod plant yr ardal yn meithrin profiadau drwy gymdeithasu gydag ystod ehangach o gyfoedion, oed-berthnasol gan dderbyn addysg o ansawdd mewn ysgol sydd yn gallu cynnig amgylchedd ddysgu a phrofiadau i ystod ehangach o ddysgwyr. |
| **Cryfhau'r economi a chefnogi trigolion Gwynedd i ennill cyflogau teilwng** | Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn debygol o gael effaith negyddol ar yr amcan hwn gan y gallai arwain at ddiswyddiadau staff.<br><br>Datblygwyd polisi staffio manwl gan Gyngor Gwynedd mewn cydweithrediad ag Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd y polisi yn sail i unrhyw newid i gyflogaeth staff sy'n deillio o unrhyw gynnig. Bydd cyfathrebu eglur ac agored yn greiddiol i weithrediad llwyddiannus unrhyw gynigion. |
| **Cefnogi pobl Gwynedd i fyw mewn cartrefi addas a fforddiadwy yn eu cymunedau** | Dim effaith. |
| **Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau** | Bydd sicrhau fod y dysgwyr yn derbyn addysg o'r radd flaenaf yn greiddiol i'r cynnig, gan sicrhau y byddant yn derbyn addysg o'r un ansawdd a safon yn yr ysgol amgen. |
| **Sicrhau ein bod yn rhoi pob cyfle posib i'n trigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned** | Mynegwyd pryder cryf gan ymatebwyr yr ymgynghoriad y gallai'r cynigion gael effaith andwyol ar y Gymraeg a bywyd y gymuned, gyda'r farn bod yr ysgol yn ganolog i gynnal y Gymraeg fel iaith fyw a naturiol ym mywyd y pentref. Nodwyd bod yr ysgol yn gweithredu fel canolbwynt pwysig i fywyd Cymraeg y pentref, gan gyfrannu at ddefnydd yr iaith y tu hwnt i oriau ysgol a chyfeirir sut mae'r ysgol yn integreiddio teuluoedd newydd, gan gynnwys rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl, i fywyd Cymraeg lleol. |

| | |
|---|---|
| | Mynegwyd pryder y gallai colli'r ysgol danseilio'r ecosystem ieithyddol leol, gan arwain at leihad graddol yn y defnydd cymunedol o'r Gymraeg.<br>Fel rhan o'r broses statudol, cynhaliodd yr Awdurdod asesiad o effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg. Diweddarwyd yr asesiad hwn yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol. Yng nghasgliad yr asesiad, nodir bod y Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch rôl Ysgol Baladeulyn mewn cefnogi defnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref, ac yn derbyn bod y sylwadau'n tynnu sylw at effaith negyddol bosibl ar elfennau o fywiogrwydd ieithyddol lleol y tu allan i'r ddarpariaeth addysgol ffurfiol.<br><br>Fodd bynnag, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw nad yw'r cynnig arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg na chyfleoedd ieithyddol dysgwyr, am y rhesymau canlynol:<br><br>• Mae data CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn<br><br>• Mae'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.<br><br>• Rhagwelir y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig arfaethedig yn cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion.<br><br>Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.<br><br>Ar yr un pryd, gan ystyried sylwadau'r ymgynghoriad, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i'r cyd-destun addysgol. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol yn deillio o wireddu'r cynnig, gan na fydd rhieni/gwarchodwyr/teuluoedd yn cyfarfod yn ddyddiol yn nghymuned Nantlle wrth ollwng/casglu plant dysgwyr o'r ysgol. Nodir y gellid ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnydd yr adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd.<br><br>Yn y cyd-destun addysgol, ar sail yr uchod, rhagwelir, o weithredu'r cynnig, y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach. |
| **Gwarchod harddwch naturiol y sir, ac ymateb yn gadarnhaol i'r argyfwng newid hinsawdd** | Dim effaith. |
| **Rhoi trigolion Gwynedd yn gyntaf gan eu trin yn deg a sicrhau fod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol ac effeithlon** | Dim effaith. |

## 3. A YW'R CYNNIG YN CWRDD Â NODAU LLESIANT Y DDEDDF?

| Nod | Yw'r cynnig yn cyfrannu at y nod yma? | Mesurau lliniaru effeithiau negyddol ar y nod yma: |
|---|---|---|
| **Cymru lewyrchus**<br>Cymdeithas arloesol sy'n defnyddio adnoddau'n ddarbodus, pobl addysgedig, sy'n creu cyfoeth a gwaith. | Byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn ac addysgu'r plant yn Ysgol Talysarn yn golygu fod y dysgwyr yn meithrin profiadau drwy gymdeithasu gydag ystod ehangach o gyfoedion, oed-berthnasol gan dderbyn addysg o ansawdd mewn ysgol sydd yn gallu cynnig amgylchedd ddysgu a phrofiadau i ystod ehangach o ddysgwyr.<br><br>Gall cyflwyno'r cynnig arwain at staff yn colli eu swyddi. | Ymgynghorir â staff a chynrychiolwyr Undebau yn benodol fel rhan o'r cyfnod ymgynghori statudol.<br><br>Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu polisi staffio manwl, ar y cyd ac Undebau Llafur a phenaethiaid. Bydd rhaid i unrhyw ddiswyddiadau o ganlyniad i'r cynnig hwn gyd-fynd â'r polisi hwnnw. Bydd cyfathrebu clir ac agored yn chwarae rhan greiddiol mewn gweithredu unrhyw gynigion. |
| **Cymru gydnerth**<br>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau iach sy'n cefnogi gwydnwch a gyda'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith |
| **Cymru iachach**<br>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl ac mae pobl yn deall beth sy'n effeithio ar eu hiechyd. | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith |

| | | |
|---|---|---|
| **Cymru sy’n fwy cyfartal**<br>Cymdeithas sy’n galluogi pobl i gyflawni eu potensial gwaeth beth fo’u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a’u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). | Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, mynegwyd pryder y gallai newidiadau i’r trefniadau presennol arwain at brofiadau llai cyfartal i rai plant, yn enwedig y rhai mwyaf bregus. Codwyd pryderon penodol ynghylch profiadau dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, gyda’r farn fod maint bach yr ysgol yn cefnogi parhad, sefydlogrwydd a chefnogaeth bersonol effeithiol. Mynegwyd pryderon gall trosglwyddo i ysgol fwy ac anghyfarwydd cael effaith negyddol ar blant bregus neu gydag ADY.<br>Yn ogystal, mynegwyd barn gryf y byddai’r cynnig yn effeithio’n negyddol ar lesiant teuluoedd sy’n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, yn enwedig teuluoedd sydd heb fynediad rhwydd at gar gan gyfeirio at drafnidiaeth cyhoeddus annibynadwy.<br>Mae’r Cyngor yn parhau o’r farn y byddai’r cynnig yn gwella gallu'r Awdurdod i *“gynnig addysg o’r ansawdd uchaf posibl fydd yn rhoi’r profiadau, y sgiliau a’r hyder i blant y Sir a’u galluogi i ddatblygu i fod yn ddinasyddion dwyieithog, llwyddiannus a chyflawn”* yn unol â gweledigaeth Strategaeth Addysg Gynradd o’r Ansawdd Gorau i Blant Gwynedd. | Er bod pryderon wedi’u mynegi ynghylch yr effaith bosibl ar blant bregus, gan gynnwys dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol ac anawsterau emosiynol, mae mesurau lliniaru penodol mewn lle i sicrhau na fyddai’r cynnig yn arwain at allgáu na gwahaniaethu anghymesur.<br><br>Yn unol â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chod ADY Cymru, mae dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i sicrhau bod pob dysgwr ag ADY yn parhau i dderbyn y ddarpariaeth a nodir yn eu Cynllun Datblygu Unigol, waeth beth fo unrhyw newid mewn trefniadau ysgol. Pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, byddai trefniadau trosglwyddo yn cael eu cynllunio’n ofalus, gyda chefnogaeth briodol i ddysgwyr a theuluoedd, gan gynnwys ymgysylltu cynnar â’r ysgol dderbyn, staff cymorth perthnasol a gwasanaethau cefnogi.<br><br>Pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai’r ddarpariaeth yn Ysgol Talysarn yn cynnwys mynediad at ystod ehangach o arbenigedd, cyfoedion a chefnogaeth broffesiynol, gyda’r nod o gynnal neu wella llesiant, cynhwysiant a phrofiad addysgol dysgwyr.<br><br>O ran teuluoedd o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol dan anfantais, nodir y bydd trefniadau cludiant ysgol yn cael eu gweinyddu yn unol â pholisi statudol y Cyngor, gan sicrhau nad yw cost na hygyrchedd cludiant yn rhwystr i fynediad cyfartal at addysg. Caiff effaith bosibl ar deuluoedd unigol ei hystyried lle bo hynny’n berthnasol.<br><br>Yn dilyn ystyried y sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol, fe ddiweddarwyd yr asesiad effaith cydraddoldeb er mwyn adlewyrchu’r pryderon a godwyd a’u heffaith bosibl ar nodweddion gwarchodedig a chydraddoldeb ehangach. Mae’r asesiad hwn yn nodi y gallai’r cynnig arwain at effeithiau rhannol negyddol posibl ar rai grwpiau, gan gynnwys mewn perthynas ag Anabledd, Oedran, yr Iaith Gymraeg ac Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol. Fodd bynnag, mae’r asesiad pellach hefyd yn nodi y gallai effeithiau positif posibl godi pe byddai’r cynnig yn cael ei weithredu, gan gynnwys mewn perthynas â mynediad at ddarpariaeth addysg ehangach, cyfleoedd cymdeithasol ac addysgol ychwanegol, a mynediad at arbenigedd a chefnogaeth estynedig. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl, nodir fod polisïau a gweithdrefnau cadarn eisoes ar waith o fewn yr Awdurdod, sy'n berthnasol i holl ysgolion y sir, i sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau cydraddoldeb, atal camwahaniaethu anghyfreithiol, a hyrwyddo cyfle cyfartal i bob dysgwr. Yn ogystal, nodwyd fod polisïau a threfniadau cadarn mewn lle a fyddai'n sicrhau fod y cynnig yn ystyried ac yn cyd-fynd â hawliau cyfartal. Nodir fod mesurau eisoes mewn lle i sicrhau na fydd camwahaniaethu anghyfreithiol nac aflonyddu. |
| **Cymru o gymunedau gydlynus**<br>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. | Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, mynegwyd yn gyson fod yr ysgol yn elfen greiddiol o fywyd y pentref ac yn ganolog i hunaniaeth y gymuned. Tynnwyd sylw at rôl yr ysgol wrth hwyluso rhyngweithio cymdeithasol dyddiol rhwng teuluoedd a thrigolion lleol. Mynegwyd pryder y byddai cau'r ysgol yn lleihau'r cyfleoedd naturiol i bobl gyfarfod, cymdeithasu a chynnal cysylltiadau cymunedol anffurfiol. Pwysleisiwyd fod ysgol gynradd leol yn ffactor pwysig wrth ddenu a chadw teuluoedd ifanc.<br><br>Mae cymuned Nantlle yn gryf a gweithgar a chydnabyddir y gallai cau Ysgol Baladeulyn arwain at beth effaith negyddol ar y gymuned. | Fel rhan o'r broses statudol, cynhaliodd yr Awdurdod asesiad o effaith y cynnig ar y gymuned. Diweddarwyd yr asesiad hwn yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol. Yn yr asesiad diweddaraf, nodir y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn, gan y byddai hyn yn arwain at golli ysgol o fewn cymuned Nantlle fel canolbwynt cymunedol. Yn ogystal, pe byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, cydnabyddir y byddai'r ysgol leol yn bellach o gartrefi o fewn dalgylch presennol Ysgol Baladeulyn, ac o safbwynt amddifadedd golyga hyn fod un o ddangosyddion 'mynediad i wasanaethau' yn pellhau oddi wrth drigolion yr ardal. O ganlyniad, rhagwelir y bydd peth effaith negyddol ar y gymuned leol pe byddai'r ysgol yn cau.<br><br>Fodd bynnag, nodir bod canran sylweddol o blant y dalgylch (75%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), sydd yn awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos eisoes yn bodoli. Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen gyda chau Ysgol Baladeulyn, byddai'r Cyngor yn ceisio liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog a chefnogi cysylltiadau parhaus rhwng cymuned Nantlle a'r ysgol amgen, Ysgol Talysarn, a hyrwyddo cydweithio cymunedol lle bo hynny'n briodol, a sicrhau bod trigolion a theuluoedd yn ymwybodol o gyfleoedd, cyfleusterau a gweithgareddau'r ysgol amgen.<br><br>Yn ogystal, nodir mai pe bai penderfyniad i gau'r ysgol yn cael ei wneud, y byddai Polisi Ôl-ddefnydd yr Awdurdod yn gweithredu fel fframwaith i ymgymryd â thrafodaethau pellach ynghylch opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gynnwys defnydd cymunedol lle bo hynny'n briodol, er mwyn ceisio lliniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned leol. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**<br>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. | Yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, nodwyd bod yr ysgol yn chwarae rôl bwysig wrth integreiddio teuluoedd newydd, gan gynnwys rhai o gefndiroedd Saesneg eu hiaith, i fywyd Cymraeg y pentref. Mynegwyd pryder y gallai colli'r ysgol danseilio'r broses hon, gan arwain at lai o ddefnydd naturiol o'r Gymraeg ymhlith teuluoedd newydd. Pwysleisiwyd bod yr ysgol yn cyfrannu'n sylweddol at ddefnydd y Gymraeg mewn cyd-destunau anffurfiol, megis cyfarfodydd cymdeithasol, chwarae ar ôl ysgol a rhyngweithio rhwng rhieni a thrigolion lleol. Nodwyd pryder gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad y gallai symud dysgwyr i ysgol â phroffil ieithyddol gwannach leihau lefel trochi Cymraeg. Cyfeiriwyd at waith Ysgol Baladeulyn o ran y Siarter Iaith, gan nodi bod yr ysgol wedi ennill gwobr aur.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon ynghylch effaith bosibl cau Ysgol Baladeulyn ar fywiogrwydd ieithyddol y gymuned leol. Fodd bynnag, ar sail y data diweddaraf a'r ffaith y bydd dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg gyda chyfleoedd ehangach i gymdeithasu yn y Gymraeg, rhagwelir y bydd y cynnig yn cynnal neu hyd yn oed cryfhau defnydd anffurfiol y Gymraeg ymhlith dysgwyr. Er hynny, mae'r Cyngor yn cydnabod, pe byddai penderfyniad i gau'r ysgol, y gallai'r newid arwain at effaith negyddol ar ddefnydd y Gymraeg fel iaith gymunedol y tu allan i'r ysgol, a bydd yn ystyried mesurau lliniaru megis cynnwys cymuned Baladeulyn yng ngweithgareddau'r ysgol amgen ac opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd yr adeilad. | Fel rhan o'r broses statudol, cynhaliodd yr Awdurdod asesiad o effaith y cynnig ar yr iaith Gymraeg. Diweddarwyd yr asesiad hwn yn dilyn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol. Yn yr asesiad diweddaraf, nodir yn y casgliad bod y Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch rôl Ysgol Baladeulyn mewn cefnogi defnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref, ac yn derbyn bod y sylwadau'n tynnu sylw at effaith negyddol bosibl ar elfennau o fywiogrwydd ieithyddol lleol y tu allan i'r ddarpariaeth addysgol ffurfiol.<br><br>Fodd bynnag, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw nad yw'r cynnig arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg na chyfleoedd ieithyddol dysgwyr, am y rhesymau canlynol:<br><br>• Mae data CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn<br><br>• Mae'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.<br><br>• Rhagwelir y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig arfaethedig yn cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion.<br><br>Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.<br><br>Ar yr un pryd, gan ystyried sylwadau'r ymgynghoriad, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i'r cyd-destun addysgol. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol yn deillio o wireddu'r cynnig, gan na fydd rhieni/gwarchodwyr/teuluoedd a thrigolion lleol yn cyfarfod yn ddyddiol yn nghymuned Nantlle wrth ollwng/casglu plant dysgwyr o'r ysgol. Nodir y gellid |

| | | |
|---|---|---|
| | | ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnydd yr adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd.<br><br>Yn y cyd-destun addysgol, ar sail yr uchod, rhagwelir, o weithredu'r cynnig, y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**<br>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn debygol o gael effaith ar y nod hwn. | Dim effaith |

## 4. EGWYDDORION DATBLYGU CYNALIADWY

| | |
|---|---|
| **Egwyddorion Datblygu cynaliadwy** | **A yw'r cynnig yn ystyried yr egwyddor?** |
| **Tymor Hir**<br>Cydbwyso anghenion tymor byr gyda rhai hirdymor a chynllunio ar gyfer y dyfodol. | Mae'r patrwm o niferoedd dysgwyr yn gostwng wedi bod yn gyson ers 2016, gyda rhagamcanion yn dangos y bydd niferoedd dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn lleihau ymhellach dros y blynyddoedd nesaf, ac felly dengys y bydd yr heriau presennol sydd yn wynebu'r ysgol yn rhai hir dymor, ac felly mae'r achos dros newid yn glir. |
| **Atal**<br>Neilltuo adnoddau ar gyfer atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Byddwn yn rhoi sylw i broblemau drwy atal ac ymyrryd yn fuan yn hytrach na thrwy ymateb. | Pe byddai'r Cabinet yn penderfynu gweithredu ymhellach, bydd anghenion y dysgwyr yn flaenoriaeth yn ystod pob cam o unrhyw broses. |
| **Integreiddio**<br>Cael effaith gadarnhaol ar bobl, yr economi, yr amgylchedd a diwylliant. | Bu i'r awdurdod benderfynu cychwyn y broses o edrych ar ddyfodol Ysgol Baladeulyn yn sgil sefyllfa argyfyngus sy'n wynebu'r ysgol. |
| **Cydweithredu**<br>Gweithio gyda phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaethau. | Bydd cydweithio gydag adrannau perthnasol eraill a'r ysgol amgen yn rhan bwysig o gyflawni'r amcanion er lles yr ysgol a phlant y dalgylch. |
| **Cynnwys (Cyfathrebu ac Ymgysylltu)**<br>Cynnwys pobl Gwynedd wrth geisio gwireddu ein cynllun a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal. | Mae'r cynnig yma wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus, ac ymgynghoriad ar gyfer plant. Mae'r broses hyd yma wedi cynnwys cyfarfodydd adolygu lleol i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol yr ysgol. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi cynnwys y Corff Llywodraethol, staff a rhieni Ysgol Baladeulyn. |

# 5. CASGLIAD

Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion.

Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, codwyd pryderon ynghylch effaith y cynnig ar blant bregus a dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, ar lesiant teuluoedd sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol, ac ar fywiogrwydd ieithyddol a chymunedol y pentref.

Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig, y byddai'r cynnig yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nantlle. Fodd bynnag nodir fod cyfran helaeth o'r dysgwyr sy'n byw o fewn dalgylch (75%) yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng yr ysgolion a chymuned yr ysgol honno yn bodoli eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru'r effaith ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Talysarn, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Pe byddai'r cynnig arfaethedig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Talysarn yn cynnwys cymuned Nantlle lle'n briodol.

Mae'r Cyngor yn ymrwymo i sicrhau bod unrhyw drefniadau pontio yn rhoi blaenoriaeth i anghenion unigol, gan gynnwys i blant bregus a dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol, pe byddai'r ysgol yn cau.

Rhagwelir y byddai'r cynnig yn sicrhau fod plant yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

# Asesu'r Effaith ar Bobl Gwynedd

Mae'r ddogfen yma yn asesu'r effaith fydd y polisi, gweithdrefn, cynllun ayb yn ei gael ar boblogaeth y sir ac yn gweithredu ar sail nifer o ddeddfau.

- **Deddf Cydraddoldeb 2010**. Mae'n rhoi dyletswydd ar fudiadau cyhoeddus i roi sylw dyledus i effaith unrhyw bolisi, weithdrefn, cynllun ayb newydd (neu wrth eu addasu) ar bobl â nodweddion gwarchodedig. Mae gofyn i ni
  - ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf.
  - hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
  - meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt.

  Yng Nghymru mae'r ddyletswydd benodol yn nodi yr angen i wneud asesiad effaith yn dilyn canllawiau penodol i ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb gwarchodedig. Rhaid gwneud asesiad amserol cyn gwneud penderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. sy'n cael effaith ar bobl hefo nodwedd gwarchodedig).

- **Dyletswydd Economaidd-Cymdeithasol.** Mae Cymru wedi gweithredu'r ddyletswydd bellach yma sy'n ran o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi dyletswydd i fynd i'r afael ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

- **Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.** Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried yr effaith fydd newid mewn unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu greu polisi neu weithdrefn o'r newydd), yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r ddogfen hon felly yn sicrhau bod y penderfyniadau yma'n diogelu ac yn hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.** Mae dyletswydd ar y Cyngor i roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac i ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol.

- **Deddf Lluoedd Arfog 2021.** Rhaid i Gynghorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

# Ysgol Baladeulyn

**Awdur:** Gwern ap Rhisiart

**Dyddiad:** Mai 2026

**Fersiwn: 3**

# CAM 1 - Prif Nodau ac Amcanion y Polisi neu'r Ymarfer

### 1. Sut fath o ddogfen neu weithdrefn sy'n cael ei asesu?

- Polisïau, ymarfer neu weithdrefnau newydd neu rai sy'n cael eu hadolygu (sy'n golygu newid yn narpariaeth y gwasanaeth neu arferion cyflogaeth)

### 2. Beth yw nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig y polisi neu'r ymarfer?

Ar 14 Hydref 2025, penderfynodd Cabinet Cyngor Gwynedd i ymgymryd â phroses ymgynghori statudol ar gynnig i gau Ysgol Baladeulyn ar 31 Rhagfyr 2026, a darparu lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn o 1 Ionawr 2027 ymlaen, yn unol â gofynion Adran 48 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 10 Rhagfyr a 28 Ionawr, a derbyniwyd 30 ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae Ysgol Baladeulyn wedi ei blaenoriaethu ar gyfer adolygiad o'r ddarpariaeth addysgol oherwydd bod nifer o heriau yn ei hwynebu. Mae niferoedd dysgwyr yr ysgol wedi gostwng yn gyson dros y blynyddoedd diweddar ac yn fregus ers peth amser. O ganlyniad, mae'n debygol felly bod yr ysgol yn wynebu heriau cynyddol, gan gynnwys:

- **Niferoedd dysgwyr** – Dengys data cyfrifiad CYBLD Ionawr 2026 dim ond 6 dysgwr llawn amser oedd yn mynychu'r ysgol gyda 2 blentyn yn y Dosbarth Meithrin. Mae gan yr ysgol gapasiti ar gyfer 55 o ddysgwyr Derbyn i Flwyddyn 6 (+7 yn y Dosbarth Meithrin).
- **Dysgwyr y dalgylch** – Dengys data Ionawr 2026 mai dim ond 25% o ddysgwyr dalgylch Ysgol Baladeulyn sy'n dewis mynychu'r ysgol. Mae 75% o ddysgwyr y dalgylch yn dewis mynychu ysgolion all-dalgylch.
- **Rhagamcanion niferoedd** – Mae rhagamcanion niferoedd (yn cynnwys y Dosbarth Meithrin) yn argymell bydd y niferoedd yn parhau'n fregus i'r dyfodol: Medi 2026= 9; Medi 2027 = 9; Medi 2028= 8
- **Canran uchel o lefydd gweigion** – Yn seiliedig ar ffigyrau Ionawr 2026, mae oddeutu 89% o lefydd gweigion (49 mewn nifer).

- **Maint dosbarthiadau bychain** – Yn Ysgol Baladeulyn (Medi 2025) mae un dosbarth sy'n cynnwys pob dysgwr yn yr ysgol – sef 6 dysgwr Derbyn-*Bl.6* (Derbyn, Bl.1 a 2, a Bl. 4 a 5) ynghyd â 2 ddysgwr Meithrin. O fewn y dosbarth hwn, caiff grwpiau gwahanol eu ffurfio ar wahanol adegau o'r dydd, gyda'r cymorthyddion yn arwain y gweithgareddau (gyda'r dysgwyr ieuengaf). Mae hyn felly yn golygu mae'r amrediad oedran yn y dosbarth cyfan yn ymestyn hyd at 8 mlynedd.
- **Amrediad oedran eang o fewn dosbarthiadau** – Mae amrediad oedran o 8 mlynedd mewn un dosbarth.
- **Cyllid ychwanegol i'r dyraniad -** Mae Ysgol Baladeulyn yn derbyn swm ychwanegol i'r dyraniad arferol trwy'r polisi lleiafswm staffio (sy'n gwarantu o leiaf pennaeth ac athro ymhob ysgol, a phennaeth a chymhorthydd mewn ysgolion sydd â llai na 15 o ddysgwyr llawn amser). Cyfanswm y swm ychwanegol yn ystod y flwyddyn ariannol 2026-27 (seiliedig ar niferoedd Medi 2025) fydd £74,446
- **Cost fesul dysgwr** – Cyfartaledd cost fesul dysgwr yn Ysgol Baladeulyn yn 2026-27 fydd £25,123 o gymharu a'r cyfartaledd sirol o £5,998.

**3. Pwy yw'r prif grwpiau ymgynghorol (budd-ddeiliaid)?**

- Staff, Llywodraethwyr a Rhieni/Gwarchodwyr Ysgol Baladeulyn
- Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar y cynnig, ymgynghorir gyda'r holl ymgynghorai a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion
- Adran Addysg a Swyddogion adrannau eraill Cyngor Gwynedd

# CAM 2 - Data Ymgysylltu ac Asesu'r Effaith

**4. Oes ymgais wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i ymgysylltu yn unol â'r hyn a ddisgrifir uchod ac oes digon o wybodaeth wedi ei gasglu i symud ymlaen?**

Oes

**Manylion yr ymgysylltu. Nodwch unrhyw ymgynghori neu ymgysylltu rydych chi wedi ei wneud neu yn bwriadu ei wneud**

| Gweithrediad | Dyddiadau | Gwybodaeth |
|---|---|---|
| **Panel Adolygu Baladeulyn 1** | **17 Mawrth 2025** | Sefydlwyd Panel Adolygu Ysgol (PAY) Baladeulyn ym mis Mawrth 2025 a chynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd rhwng mis Mawrth a Gorffennaf 2025, gyda'r olaf ar y 7fed o Orffennaf 2025. Roedd aelodaeth y PAY yn cynnwys pennaeth a staff yr ysgol, llywodraethwyr, yr Aelod Lleol, rhieni/gwarchodwyr.<br><br>Yn ystod y cyfarfodydd, ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer addysg gynradd dalgylch Ysgol Baladeulyn er mwyn |
| **Panel Adolygu Baladeulyn 2** | **19 Mai 2025** | |
| **Panel Adolygu Baladeulyn 3** | **7 Gorffennaf 2025** | |

| | | |
|---|---|---|
| | | sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol, gan ymateb yn benodol i'r niferoedd isel o ddysgwyr. |
| **Ymgynghoriad Statudol** | **Rhagfyr 2025 – Ionawr 2026** | Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar y cynnig, yn unol a gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.<br><br>Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 10 Rhagfyr 2025 a 28 Ionawr 2026, a derbyniwyd 30 ymateb i'r ymgynghoriad. |

**5. Pa wybodaeth sydd ar gael am yr effaith ar bob un o'r nodweddion a'r pynciau isod?**

| | **Tystiolaeth, Gwybodaeth a Data Perthnasol** | **Effaith Posib Gadarnhaol a/neu negyddol** |
|---|---|---|
| **Hil** | Mae gan ysgolion Gwynedd bolisïau perthnasol ar waith i amddiffyn unigolion rhag unrhyw wahaniaethu yn seiliedig ar hil, megis Polisïau Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Gwrth-fwlio. Mae'r Polisi Gwrth-fwlio a ddarperir gan Gyngor Gwynedd yn nodi canllawiau a gweithdrefnau gwrth-fwlio yn seiliedig ar ffactorau megis hil yn yr ysgol. Yn ogystal, fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd fod yr ysgolion yn *"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."*<br><br>Ni ragwelir felly y byddai'r cynnig yn cael effaith negyddol ar y nodwedd yma. | Dim |
| **Anabledd** | Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, codwyd pryderon am effaith negyddol y cynnig ar rai grwpiau o ddysgwyr, yn benodol rhai sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol dwys, o drosglwyddo i ysgol newydd sydd yn fwy ac yn anghyfarwydd iddynt. Cwestiynwyd, hefyd, os fydd parhad cymorth megis aelod o staff cefnogi ac oriau cefnogaeth i ddysgwr ADY yn trosglwyddo i'r ysgol amgen i liniaru'r effaith o drosglwyddo i ysgol newydd. Nodwyd bod rhieni wedi dewis Ysgol Baladeulyn yn benodol oherwydd y gofal, | Yn sgil y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, nodir effaith negyddol bosib ar rai dysgwyr sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol dwys oherwydd pryderon trosglwyddo i ysgol fwy ac anghyfarwydd, ac os fydd parhad staff cefnogi i'r dysgwr yn yr ysgol amgen i liniaru effaith negyddol posib.<br><br>Fodd bynnag, asesiad y Cyngor yw y byddai effaith niwtral neu gadarnhaol ar y nodwedd hon pe byddai'r |

| | | |
|---|---|---|
| | amgylchedd dysgu a chefnogaeth bersonol mae'r dysgwyr yn derbyn mewn ysgol lai.<br>Mae'r Cyngor yn nodi'r y pryderon hwn, ac er na ellir gwarantu y bydd parhad staff cefnogi yn yr ysgol amgen, nodir bod pob cais yn cael ei asesu'n unigol. Fel y nodir yn Llawlyfr Rhieni Gwynedd 2025/26, mae gan ddysgwyr ADY hawl i barhau i dderbyn y cymorth sydd wedi'i nodi yn eu Cynllun Datblygu Unigol, ac mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n parhau hyd yn oed pan fo trefniadau ysgol yn newid.<br><br>Pe byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, byddai'r awdurdod a'r ysgol amgen yn cydweithio'n agos, gyda'r dysgwyr a'u teuluoedd, i sicrhau trosglwyddiad esmwyth ac i gefnogi'r dysgwyr wrth ymgartrefu yn eu hysgolion newydd. Mae'r Cyngor yn ymrwymo i sicrhau bod unrhyw drefniadau pontio yn rhoi blaenoriaeth i anghenion unigol, gan gynnwys i ddysgwyr bregus a dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol, pe byddai'r ysgol yn cau.<br><br>Cyfeirir yn Asesiad Effaith ar Ansawdd a Safonau Addysg at elfennau fel amodau gwell i gydlynydd anghenion dysgu ychwanegol i gyfarch y gofyn statudol a bod map darpariaeth yn fwy eang mewn ysgolion mwy.<br><br>Ni ragwelir y byddai'r newid yn cael effaith negyddol ar y nodwedd yma. Byddai asesiad o unrhyw ysgolion amgen perthnasol ar sail hygyrchedd yn cael ei gynnal a byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw gludiant a ddarperir (yn unol â pholisi cludiant yr Adran Addysg) yn addas ar gyfer anghenion yr unigolyn. Bydd anghenion unrhyw blentyn anabl yn cael eu hystyried yn unol â pholisïau Hygyrchedd a Chydraddoldeb yr Adran Addysg. | cynnig yn cael ei weithredu, gan y rhagwelir y byddai'r ysgol amgen medru cynnig amodau gwell i gydlynydd anghenion dysgu ychwanegol i gyfarch y gofyn statudol a bod map darpariaeth yn fwy eang mewn ysgolion mwy.<br><br>Byddai asesiad o unrhyw ysgolion amgen perthnasol ar sail hygyrchedd yn cael ei gynnal, a byddwn yn sicrhau y bydd unrhyw gludiant a ddarperir (yn unol a pholisi cludiant yr Adran Addysg) yn addas ar gyfer anghenion yr unigolyn. Bydd anghenion unrhyw blentyn anabl yn cael eu hystyried yn unol â pholisïau Hygyrchedd a Chydraddoldeb yr Adran Addysg. |
| **Rhyw** | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn effeithio ar y nodwedd yma. Byddai gweithredu'r cynnig yn golygu fod pawb yn parhau i gael eu trin yn ôl eu hangen beth bynnag yw eu rhyw. Mae bob ysgol yn gweithredu Polisi Cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn: | Dim |

| | | |
|---|---|---|
| | *"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* | |
| **Oedran** | Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, nodwyd bod yr ysgol bresennol yn cefnogi cyfleon cyfartal i gymryd rhan ac yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol a chynhwysol rhwng dysgwyr, staff a theuluoedd, gyda phryder y gallai symud i ysgol fwy wanhau'r elfennau hyn. Codwyd pryderon penodol ynghylch llesiant, iechyd meddwl a'r risg y gallai rhai dysgwyr ei chael hi'n anodd pontio i ysgol fwy, gyda goblygiadau posibl i'w profiad addysgol, gan effeithio'n benodol ar blant naturiol swil neu ddi-hyder sydd angen cefnogaeth ychwanegol neu amgylchedd mwy personol i ffynnu.<br><br>Mae'r Cyngor yn nodi'r y pryderon hyn ac yn nodi bod polisïau cydraddoldeb, cynhwysiant ac amddiffyn rhag gwahaniaethu ar waith yn y ddarpariaeth bresennol ac yn yr ysgol amgen. Pe gweithredir y cynnig, bydd trefniadau pontio yn rhoi pwyslais ar anghenion unigol.<br><br>Pe gweithredir y cynnig, rhagwelir y byddai dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol yn eu dosbarth gan fod mwy o ddysgwyr yn Ysgol Talysarn, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas i'w hoedran ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.<br><br>Credwn y byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy addas i'w hoedran yn yr ysgol amgen gyfagos oherwydd bydd y dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol, ynghyd â gwersi wedi'u gwahaniaethu yn briodol ar gyfer yr ystod oedran. Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn golygu fod pobl o unrhyw oedran yn cael eu trin yn deg ac yn ôl eu hangen. Mae Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn yn gweithredu polisi cydraddoldeb sydd yn nodi fod yr ysgol yn: | Yn sgil y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, nodir effaith negyddol bosib ar rai dysgwyr (yn enwedig rhai sydd yn naturiol swil sydd yn ffynnu mewn dosbarthiadau llai neu sy'n fregus yn gymdeithasol/emosiynol) oherwydd pryderon y gallai symud i ysgol fwy sy'n anghyfarwydd leihau sylw a chefnogaeth unigol, gan gynyddu'r risg o anhawster yn ystod cyfnod pontio.<br><br>Asesiad y Cyngor yw y byddai effaith niwtral neu gadarnhaol ar y nodwedd hon pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu gan y byddai'r ysgol amgen yn gallu cynnig dosbarthiadau gyda mwy o gyfoedion oed-berthnasol. |

| | | |
|---|---|---|
| | *"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* | |
| **Crefydd a Chred** | Ysgolion cymunedol yw Ysgol Baladeulyn a'r ysgol amgen a nodir yn y cynnig (Ysgol Talysarn).<br><br>Mae gan bob ysgol Bolisi Cynhwysiad a fyddai'n delio ag unrhyw ddigwyddiad gwahaniaethol a allai godi yn yr ysgol, sy'n gysylltiedig â chrefydd neu gred.<br><br>O ganlyniad, ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y nodwedd hwn. | Dim |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** | Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith Cwricwlwm i Gymru a chaiff ei gyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae gan ACRh rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, sy'n greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau. Credwn y bydd dysgwyr yn derbyn mwy o gyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd a dysgu yn gydweithredol fel rhan o ddosbarth mwy mewn ysgol amgen.<br><br>Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith ar bobl ar sail cyfeiriadedd rhywiol. Mae Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn, yr ysgol amgen arfaethedig, yn gweithredu polisi cydraddoldeb sy'n nodi fod yr ysgol yn:<br>*"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* | Dim |

| | | |
|---|---|---|
| **Ail-bennu rhywedd** | Ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith ar bobl ar sail ailbennu rhywedd. Fe nodir ym mholisi Cydraddoldeb sydd yn cael ei weithredu gan ysgolion cynradd Gwynedd gan gynnwys Ysgol Baladeulyn ac Ysgol Talysarn fod yr ysgolion yn *"...gwrthwynebu pob math o ragfarn a gwahaniaethu ac yn cydnabod bod gan ddisgyblion wahanol anghenion, gofynion ac amcanion."* | Dim |
| **Priodas a Phartneriaeth Sifil** | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith ar unrhyw un priod neu mewn partneriaeth sifil, gan fod y ddwy ysgol sy'n rhan o'r cynnig yn gweithredu'r un polisïau. | Dim |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith ar unrhyw un beichiog, boed yn staff neu yn riant, gan fod y ddwy ysgol sy'n rhan o'r cynnig yn gweithredu'r un polisïau. | Dim |
| **Iaith Gymraeg** | Trwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mynegwyd pryderon y gallai cau Ysgol Baladeulyn arwain at drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ymarferol, er bod darpariaeth addysgol Gymraeg yn parhau. Pwysleisiwyd gan ymatebwyr fod Ysgol Baladeulyn yn darparu amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol a chymdeithasol o ddydd i ddydd, nid yn unig fel iaith addysgu, a bod colli'r ysgol yn gallu lleihau'r cyfleoedd hynny'n sylweddol o fewn y gymuned leol. Nodwyd bod gan Ysgol Baladeulyn broffil Cymraeg cryf iawn o'i gymharu ag ysgolion eraill yn yr ardal, a mynegwyd pryder y byddai symud i ysgol â chanran is o ddefnydd Cymraeg yn cael effaith andwyol ar hyder ieithyddol y plant.<br><br>Nodwyd hefyd y gallai colli'r ysgol danseilio'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn fyw ac yn ymarferol ym mywyd beunyddiol y gymuned, gan gyfeirio at gyfleoedd naturiol i blant, rhieni/gwarcheidwad a thrigolion lleol ymgynnull a sgwrsio yn y gymuned yn ystod amseroedd gollwng a chodi dysgwyr. Mynegwyd pryder y gallai cau'r ysgol arwain at golli'r cyfleoedd hyn, gan wanhau statws y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw ac o bosibl danseilio'r egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol. | Yn sgil y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, nodir effaith negyddol bosib ar hyder ieithyddol a defnydd Cymraeg dysgwyr Ysgol Baladeulyn pe byddai'r ysgol yn cau a'r dysgwyr yn symud i'r ysgol amgen, gan gyfeirio at ganran is o ddefnydd Cymraeg yn yr ysgol amgen.<br><br>Asesiad y Cyngor yw y byddai effaith niwtral neu gadarnhaol ar elfen darpariaeth addysgol y nodwedd hon, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, gan fyddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig arfaethedig yn cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion. Nid yw'r Cyngor o'r farn y byddai effaith negyddol ar ddarpariaeth addysgol Gymraeg dysgwyr yn deillio o'r cynnig arfaethedig.<br><br>Yn sgil y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, nodir effaith negyddol bosib ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn fyw ac yn ymarferol ym mywyd beunyddiol y gymuned, gan gyfeirio at gyfleoedd naturiol i blant, rhieni/gwarcheidwad a thrigolion lleol |

| | | |
|---|---|---|
| | Nodwyd bod yr ysgol yn gweithredu fel canolbwynt pwysig i fywyd Cymraeg y pentref, gan gyfrannu at ddefnydd yr iaith y tu hwnt i oriau ysgol a chyfeirir sut mae'r ysgol yn integreiddio teuluoedd newydd, gan gynnwys rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl, i fywyd Cymraeg lleol. Mynegwyd pryder y byddai cau'r ysgol yn tanseilio defnydd cymunedol ehangach o'r Gymraeg a phwysleisiwyd bod yr ysgol yn rhan allweddol o hunaniaeth ieithyddol y gymuned.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch rôl Ysgol Baladeulyn mewn cefnogi defnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref, ac yn derbyn bod y sylwadau'n tynnu sylw at effaith negyddol bosibl ar elfennau o fywiogrwydd ieithyddol lleol y tu allan i'r ddarpariaeth addysgol ffurfiol.<br><br>Fodd bynnag, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw nad yw'r cynnig arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg na chyfleoedd ieithyddol dysgwyr, am y rhesymau canlynol:<br><br>• Mae data CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn<br>• Mae'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.<br>• Rhagwelir y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig arfaethedig yn cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion.<br><br>Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach. | ymgynnull a sgwrsio yn y gymuned yn ystod amseroedd gollwng a chodi plant.<br><br>Asesiad y Cyngor yw y byddai peth effaith negyddol ar yr elfen cymunedol y nodwedd hon, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, gan na fydd rhieni/gwarchodwyr/teuluoedd a thrigolion lleol yn cyfarfod yn ddyddiol yn nghymuned Nantlle wrth ollwng/casglu dysgwyr o'r ysgol. Nodir mesurau posib i liniaru'r effaith negyddol yma, megis hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol ac ystyried opsiynau ar gyfer ôl-ddefnydd adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yn yr ysgol ar hyn o bryd. |

| | | |
|---|---|---|
| | Ar yr un pryd, gan ystyried sylwadau'r ymgynghoriad, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i'r cyd-destun addysgol. Rhagwelir y gall fod peth effaith negyddol yn deillio o wireddu'r cynnig, gan na fydd rhieni/gwarchodwyr/teuluoedd yn cyfarfod yn ddyddiol yn nghymuned Nantlle wrth ollwng/casglu dysgwyr o'r ysgol. Nodir y gellid ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, yn ogystal ag ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl ddefnydd yr adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd.<br><br>Yn y cyd-destun addysgol, ar sail yr uchod, rhagwelir, o weithredu'r cynnig, y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.<br><br>Yr un yw nod Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar gyfer holl ysgolion cynradd y sir, ac mae pob ysgol gynradd (namyn un ysgol) yn disgyn i gategori 3 yn unol â chanllaw categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru. Golyga hyn y bydd dysgwyr Ysgol Baladeulyn, yn gallu parhau i dderbyn eu haddysg yn Gymraeg a dwyieithog yn unol â'r Polisi Iaith Addysg yn Ysgol Talysarn. | |
| **Ystyriaethau Economaidd Gymdeithasol** | Amlygwyd pryderon penodol yn ystod yr ymgynghoriad statudol ynghylch diffyg cludiant cyhoeddus addas, amserlenni annibynadwy a lefelau is o berchnogaeth car. Nodwyd bod Talysarn yn ardal difreintiedig a bydd hyn yn peri her fawr i deuluoedd nad ydynt yn gyrru, teuluoedd incwm is, rhieni sengl a theuluoedd lle mae anableddau neu symudedd cyfyngedig yn ffactor, gan wneud teithio dyddiol i ysgol ymhellach i ffwrdd yn anodd iawn yn ymarferol.<br><br>Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon hyn ac yn nodi, pe byddai'r ysgol yn cau, y bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i ddysgwyr cymwys yn unol â Pholisi Cludiant ysgolion y sir, sy'n | Yn sgil y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad, nodir effaith negyddol bosib ar deuluoedd sydd yn profi anfantais economaidd-gymdeithasol mewn ardal di-freintiedig, gan gyfeirio at ddiffyg cludiant cyhoedd addas a lefelau is o berchnogaeth car.<br><br>Asesiad y Cyngor yw y byddai peth effaith negyddol yn ogystal âg effaith gadarnhaol ar y nodwedd hon, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Cydnabyddir effaith negyddol bosib gan y byddai'n arwain at golli ysgol o fewn cymuned Nantlle a'r her gall hyn peri i deuluoedd |

| | | |
|---|---|---|
| | sicrhau bod pob dysgwr cynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol agosaf yn gymwys i dderbyn cludiant am ddim. Mae'r polisi hefyd yn cynnwys ystyriaethau diogelwch llwybrau cerdded ac anghenion unigol lle bo'n berthnasol. Ni rhagwelir y byddai unrhyw ddysgwr dalgylch Ysgol Baladeulyn yn gorfod teithio pellter afresymol i'r ysgol, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.<br><br>Dengys yr Asesiad Effaith Cymunedol y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei gwireddu, gan y byddai hyn yn arwain at golli ysgol o fewn cymuned Nantlle. Hefyd, nodir bod canran sylweddol o blant y dalgylch (75%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), gan awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos eisoes yn bodoli.<br><br>Rhagwelir y byddai'r cynnig yn lleihau anfantais cymdeithasol drwy sicrhau mwy o brofiadau ac amrywiaeth dysgu, mwy o adnoddau a mynediad at fwy o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgol amgen. | sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Hefyd, rhagwelir y Cyngor effaith gadarnhaol posib ar y nodwedd hon pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, drwy sicrhau mwy o brofiadau ac amrywiaeth dysgu yn yr ysgol amgen. |
| **Y Rhai Sy'n Gwasanaethu Neu Sydd Wedi Gwasanaethu Yn Y Lluoedd Arfog, Ynghyd a'u Teuluoedd** | Ni ragwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog, ynghyd â'u teuluoedd. Bydd dysgwyr i deuluoedd milwrol neu gyn-filwrol yn cael yr un chwarae teg pa bynnag ysgol mae nhw'n mynychu. | Dim |
| **Hawliau Dynol** | Ni ragwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn cael effaith ar hawliau dynol. | Dim |
| **Arall** | - | - |

**6. Oes yna unrhyw fylchau data neu wybodaeth ac os felly beth yw'r rhain a sut y bwriedir ymdrin ag hwy?**

Fe ddiweddarwyd yr holl asesiadau yn dilyn ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad statudol.

**7. Wrth ystyried penderfyniadau allweddol eraill sy'n effeithio ar y grwpiau hyn, oes yna effaith gynyddol (effaith gronnus)?**

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw bolisïau arfaethedig fydd yn effeithio ar ddysgwyr a phobl ifanc yr ardal.

**8. Beth mae'r cynnig yn ei gynnwys i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach) fel y mae'r 3 nod y Ddyletswydd Gyffredinol yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn eu cwmpasu?**

Ni ragwelir y bydd y cynnig yn cael effaith ar ddyletswydd statudol yr ysgol i amddiffyn dysgwyr rhag unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth.

Anelir i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal a hybu'r ysgol amgen arfaethedig i barhau i ddilyn polisïau a gweithdrefnau cydraddoldeb. Pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, rhagwelir y byddai dysgwyr yn derbyn mwy o gyfleoedd cyfartal wrth gael eu lleoli yn Ysgol Talysarn gan y byddai'r dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sy'n seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol, ynghyd â gwersi wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran.

Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, codwyd pryderon am effaith negyddol y cynnig ar rai grwpiau o ddysgwyr, yn benodol rhai sydd gydag anghenion dysgu ychwanegol dwys, o drosglwyddo i ysgol newydd sydd yn fwy ac yn anghyfarwydd iddynt. Cwestiynwyd, hefyd, os fydd parhad cymorth megis aelod o staff cefnogi ac oriau cefnogaeth i ddysgwr ADY yn trosglwyddo i'r ysgol amgen i liniaru'r effaith o drosglwyddo i ysgol newydd. Nodwyd bod rhieni wedi dewis Ysgol Baladeulyn oherwydd y gofal ac addysg maent yn ei derbyn mewn ysgol llai. Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon hwn, ac er na ellir gwarantu y bydd parhad staff cefnogi yn yr ysgol amgen, nodir bod pob cais yn cael ei asesu'n unigol. Fel y nodir yn Llawlyfr Rhieni Gwynedd 2025/26, mae gan ddysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol hawl i barhau i dderbyn y cymorth sydd wedi'i nodi yn eu Cynllun Datblygu Unigol, ac mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i sicrhau bod y ddarpariaeth honno'n parhau hyd yn oed pan fo trefniadau ysgol yn newid. Pe byddai Ysgol Baladeulyn yn cau, byddai'r awdurdod a'r ysgol amgen yn cydweithio'n agos gyda'r dysgwyr a'u teuluoedd, i sicrhau trosglwyddiad esmwyth ac i gefnogi'r dysgwyr wrth ymgartrefu yn eu hysgolion newydd. Mae'r Cyngor yn ymrwymo i sicrhau bod unrhyw drefniadau pontio yn rhoi blaenoriaeth i anghenion unigol, i ddysgwyr bregus a dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol, pe byddai'r ysgol yn cau.

Yn ystod yr ymgynghoriad statudol, nodwyd bod yr ysgol bresennol yn cefnogi cyfleon cyfartal i gymryd rhan ac yn meithrin perthnasoedd cadarnhaol a chynhwysol rhwng dysgwyr, staff a theuluoedd, gyda phryder y gallai symud i ysgol fwy wanhau'r elfennau hyn. Codwyd pryderon penodol ynghylch llesiant, iechyd meddwl a'r risg y gallai rhai dysgwyr ei chael hi'n anodd pontio i ysgol fwy, gyda goblygiadau posibl i'w profiad addysgol, gan effeithio'n benodol ar ddysgwyr naturiol swil neu ddi-hyder sydd angen cefnogaeth ychwanegol neu amgylchedd mwy personol i ffynnu. Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon hyn ac yn nodi bod polisïau cydraddoldeb, cynhwysiant ac amddiffyn rhag gwahaniaethu ar waith yn y ddarpariaeth bresennol ac yn yr ysgol amgen. Pe gweithredir y cynnig, bydd trefniadau pontio yn rhoi pwyslais ar anghenion unigol.

Hefyd, amlygwyd pryderon penodol yn ystod yr ymgynghoriad statudol ynghylch diffyg cludiant cyhoeddus addas, amserlenni annibynadwy a lefelau is o berchnogaeth car. Nodwyd bod Talysarn yn ardal difreintiedig a bydd hyn yn peri her fawr i deuluoedd nad ydynt yn gyrru, teuluoedd incwm is, rhieni sengl a theuluoedd lle mae anableddau neu symudedd cyfyngedig yn ffactor, gan wneud teithio dyddiol i ysgol ymhellach i ffwrdd yn anodd iawn yn ymarferol. Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon hyn ac yn nodi, pe byddai'r ysgol yn cau, y bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i ddysgwyr cymwys yn unol â Pholisi Cludiant ysgolion y sir, sy'n sicrhau bod pob dysgwr cynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol agosaf yn gymwys i dderbyn cludiant am ddim. Mae'r polisi hefyd yn cynnwys ystyriaethau diogelwch llwybrau cerdded ac anghenion unigol lle bo'n berthnasol. Ni rhagwelir y byddai unrhyw ddysgwr dalgylch Ysgol Baladeulyn yn gorfod teithio pellter afresymol i'r ysgol, pe byddai'r cynnig yn cael

ei weithredu. Dengys yr Asesiad Effaith Cymunedol y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei gwireddu, gan y byddai hyn yn arwain at golli ysgol o fewn cymuned Nantlle. Hefyd, nodir bod canran sylweddol o blant y dalgylch (75%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), gan awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos eisoes yn bodoli. Pe gweithredir y cynnig, fe hyrwyddir cyfleon i'r ysgol amgen, Ysgol Talysarn, adeiladu ar ei chysylltiadau presennol gyda dalgylch Ysgol Baladeulyn.

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb (ACRh) yn ofyniad statudol yn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chaiff ei chyhoeddi o dan adran 71 o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Mae gan ACRh rôl gadarnhaol a grymusol i'w chwarae yn addysg dysgwyr ac mae'n hanfodol i ffurfio a chynnal ystod o gydberthnasau, sydd i gyd yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr, sy'n greiddiol i addysg cydberthynas a rhywioldeb. Mae'r cydberthnasau hyn yn hollbwysig er mwyn datblygu lles emosiynol, gwydnwch ac empathi. Mae dealltwriaeth o rywioldeb gyda phwyslais ar hawliau, iechyd, cydraddoldeb a thegwch yn grymuso dysgwyr i ddeall eu hunain, cymryd cyfrifoldeb am eu penderfyniadau a'u hymddygiadau eu hunain a ffurfio cydberthnasau. O weithredu'r cynnig, rhagwelir y byddai dysgwyr yn derbyn mwy o gyfleoedd i ddatblygu perthnasoedd a dysgu yn gydweithredol fel rhan o ddosbarth mwy.

**9. Sut mae'r cynnig yn dangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwer fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig)**

Amlygwyd pryderon penodol yn ystod yr ymgynghoriad statudol ynghylch diffyg cludiant cyhoeddus addas, amserlenni annibynadwy a lefelau is o berchnogaeth car. Nodwyd bod Talysarn yn ardal difreintiedig a bydd hyn yn peri her fawr i deuluoedd nad ydynt yn gyrru, teuluoedd incwm is, rhieni sengl a theuluoedd lle mae anableddau neu symudedd cyfyngedig yn ffactor, gan wneud teithio dyddiol i ysgol ymhellach i ffwrdd yn anodd iawn yn ymarferol. Mae'r Cyngor yn nodi'r pryderon hyn ac yn nodi, pe byddai'r ysgol yn cau, y bydd cludiant am ddim yn cael ei ddarparu i ddysgwyr cymwys yn unol â pholisi cludiant ysgolion y sir, sy'n sicrhau bod pob dysgwr cynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol agosaf yn gymwys i dderbyn cludiant am ddim. Mae'r polisi hefyd yn cynnwys ystyriaethau diogelwch llwybrau cerdded ac anghenion unigol lle bo'n berthnasol. Ni rhagwelir y byddai unrhyw ddysgwr dalgylch Ysgol Baladeulyn yn gorfod teithio pellter afresymol i'r ysgol, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Dengys yr Asesiad Effaith Cymunedol y byddai peth effaith negyddol debygol ar y gymuned pe byddai'r cynnig yn cael ei gwireddu, gan y byddai hyn yn arwain at golli ysgol o fewn cymuned Nantlle. Hefyd, nodir bod canran sylweddol o blant y dalgylch (75%) eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn (50%), gan awgrymu bod cysylltiadau cymunedol ac addysgol â chymunedau cyfagos eisoes yn bodoli.

Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn lleihau yr anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau fod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at fwy o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgol amgen.

Drwy weithredu'r cynnig, byddai dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn cael gwell amgylchfyd dysgu mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr o'r un oedran, a byddai'n sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u haddysg. Rhagwelir y byddai dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

**10. Sut mae'r cynnig yn dangos gweithredu yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i beidio a thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac i sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg? Hefyd sut y gweithredir yn unol â pholisi a strategaeth iaith y Cyngor i fanteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Ein disgwyliadau yw bod holl ddysgwyr y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys a gallu perthnasol er mwyn iddynt fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Bydd angen i'r cynigion ar gyfer newid trefniadau lleol gymryd ystyriaeth lawn o'r holl effeithiau ieithyddol. Bydd cynnal a chynyddu defnydd o'r Gymraeg fel iaith addysgol a chymdeithasol ymhlith y dysgwyr yn ystyriaeth allweddol wrth lunio'r cynnig.

Yr un yw nod Polisi Iaith Addysg Gwynedd ar gyfer holl ysgolion cynradd y Sir, ac mae pob ysgol gynradd (namyn un ysgol) yn disgyn i gategori 3 yn unol â chanllaw categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, Llywodraeth Cymru. Golyga hyn y bydd dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn gallu parhau i dderbyn eu haddysg yn Gymraeg a dwyieithog yn unol â'r Polisi Iaith Addysg yn Ysgol Talysarn, pe gweithredir y cynnig.

Drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad, mynegwyd pryderon cryf y gallai cau Ysgol Baladeulyn arwain at drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn ymarferol, er bod darpariaeth addysgol Gymraeg yn parhau. Pwysleisiwyd gan ymatebwyr fod Ysgol Baladeulyn yn darparu amgylchedd lle mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol a chymdeithasol o ddydd i ddydd, nid yn unig fel iaith addysgu, a bod colli'r ysgol yn gallu lleihau'r cyfleoedd hynny'n sylweddol o fewn y gymuned leol. Nodwyd bod gan Ysgol Baladeulyn broffil Cymraeg cryf iawn o'i gymharu ag ysgolion eraill yn yr ardal, a mynegwyd pryder y byddai symud i ysgol â chanran is o ddefnydd Cymraeg yn cael effaith andwyol ar hyder ieithyddol y dysgwyr. Nodwyd y gallai colli'r ysgol danseilio'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn fyw ac yn ymarferol ym mywyd beunyddiol y gymuned, gan gyfeirio at gyfleoedd naturiol i blant, rhieni/gwarcheidwad/teuluoedd a thrigolion lleol ymgynnull a sgwrsio yn y gymuned yn ystod amseroedd gollwng a chodi dysgwyr. Mynegwyd pryder y gallai cau'r ysgol arwain at golli'r cyfleoedd hyn, gan wanhau statws y Gymraeg fel iaith gymunedol fyw ac o bosibl danseilio'r egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol. Nodwyd hefyd bod yr ysgol yn gweithredu fel canolbwynt pwysig i fywyd Cymraeg y pentref, gan gyfrannu at ddefnydd yr iaith y tu hwnt i oriau ysgol a chyfeirir sut mae'r ysgol yn integreiddio teuluoedd newydd, gan gynnwys rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl, i fywyd Cymraeg lleol.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch rôl Ysgol Baladeulyn mewn cefnogi defnydd cymunedol y Gymraeg o fewn y pentref, ac yn derbyn bod y sylwadau'n tynnu sylw at effaith negyddol bosibl ar elfennau o fywiogrwydd ieithyddol lleol y tu allan i'r ddarpariaeth addysgol ffurfiol.

Fodd bynnag, ar sail yr wybodaeth sydd ar gael, barn y Cyngor yw nad yw'r cynnig arfaethedig yn debygol o gael effaith negyddol ar ddarpariaeth addysg Gymraeg na chyfleoedd ieithyddol dysgwyr, am y rhesymau canlynol:

- Mae data CYBLD Ionawr 2026 yn dangos fod 29% o ddysgwyr Ysgol Baladeulyn yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref a 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn
- Mae'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i'r dysgwyr mewn ysgol gyfagos (Ysgol Talysarn) yn golygu y byddai dysgwyr dalgylch Baladeulyn yn parhau i gael eu haddysgu mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.
- Rhagwelir y byddai'r dysgwyr yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o faint mwy a gyda mwy o blant o'r un grŵp oedran, rhagwelir bydd y cynnig arfaethedig yn cryfhau'r cyfleoedd i ddysgwyr gymdeithasu yn y Gymraeg gyda mwy o'u cyfoedion.

Ar sail yr uchod, o weithredu'r cynnig arfaethedig, rhagwelir y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.

Ar yr un pryd, gan ystyried sylwadau'r ymgynghoriad, mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai'r opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn arwain at effaith negyddol bosibl ar ddefnydd y Gymraeg o fewn y gymuned leol, yn enwedig o safbwynt ei defnydd fel iaith gymunedol y tu allan i'r cyd-destun addysgol. Nodir y gellid ystyried mesurau lliniaru drwy hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg drwy gynnwys cymuned Nantlle yng ngweithgareddau cymunedol yr ysgol amgen, Ysgol Talysarn, yn ogystal â ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd yr adeilad yr ysgol, gan gymryd i ystyriaeth y gweithgareddau cymunedol sy'n cael eu cynnal yno ar hyn o bryd.

Yn y cyd-destun addysgol, ar sail yr uchod, rhagwelir, o weithredu'r cynnig, y byddai mwy o gyfleoedd i ddysgwyr dalgylch Baladeulyn ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol gyda'u cyfoedion tu mewn a thu allan i'r dosbarth, ac y byddai lefel bywiogrwydd y Gymraeg a'r defnydd anffurfiol o'r iaith yn gryfach.

Dengys yr Asesiad Effaith ar y Gymuned y rhagwelir peth effaith negyddol ar y gymuned pe gweithredir yr opsiwn i gau Ysgol Baladeulyn. Cydnabyddir y byddai cau Ysgol Baladeulyn yn arwain at golli ysgol yng nghymuned Nantlle, fodd bynnag nodai'r asesiad fod cyfran helaeth o'r dysgwy sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn, ac felly deuir i'r casgliad fod cyswllt rhwng Ysgol Talysarn a chymuned Ysgol Baladeulyn yn bodoli eisoes.

**11. Sut mae'r cynnig hwn yn diwallu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol drwy roi'r pum ffordd o weithio ar waith, ac yn ymateb i'r 7 nod llesiant cenedlaethol gan gynnwys creu Cymru sy'n Fwy Cyfartal?**

Drwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad statudol, mynegwyd fod Ysgol Baladeulyn yn cyfrannu'n sylweddol at lesiant hirdymor dysgwyr, teuluoedd a'r gymuned, trwy ddarparu amgylchedd sefydlog a chefnogol sy'n hybu lles, cyfartaledd a chydlyniant cymunedol. Nodwyd bod y darpariaeth presennol yn cefnogi dysgwyr bregus neu dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol, ac yn cynnal y Gymraeg fel iaith fyw, gyda phryder y gallai newidiadau danseilio'r manteision hyn. Tynnwyd sylw hefyd at y ffordd y mae'r ysgol yn cyfrannu at sawl nod llesiant, drwy ddarparu mynediad lleol at addysg sydd yn ganolog i ryngweithio cymdeithasol a bywyd bob dydd y pentref ac yn hybu'r defnydd naturiol o'r Gymraeg i bob oedran a chefndir. Yn dilyn ystyriaeth ac asesiad yn unol â gofynion y ddeddf llesiant, ystyriwyd 7 nod y ddeddf llesiant ac amcanion llesiant y Cyngor a deuir i'r casgliad fod y cynnig yn cwrdd â'r gofynion.

Cydnabyddir, pe byddai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen efo'r cynnig hwn, gall arwain at golli ysgol yng nghymuned Nantlle, fodd bynnag mae nifer helaeth o'r dysgwyr sy'n byw o fewn dalgylch yr ysgol eisoes yn mynychu ysgolion eraill, gan gynnwys Ysgol Talysarn, ac felly mae cyswllt rhwng yr ysgolion a chymuned yr ysgol honno yn bodoli eisoes. Bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i liniaru unrhyw effaith negyddol ar y gymuned drwy annog cysylltiadau rhwng y cymunedau ac Ysgol Talysarn. Pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal er mwyn trafod y posibilrwydd fod gweithgarwch cymunedol Ysgol Talysarn yn cynnwys y gymuned lle'n briodol.

Bydd y cynnig yn sicrhau fod dysgwyr yr ardal yn cael eu haddysgu ar safle sy'n addas ac mewn cymdeithas naturiol Gymraeg, gan gynyddu cyfleoedd i gymdeithasu a chydweithio gydag eraill a rhoi cyfle teg iddynt ffynnu ymysg eu cyfoedion.

# CAM 3 - Caffael a Phartneriaethau

**12. A fydd y polisi neu'r ymarfer hwn yn cael ei gyflawni'n llwyr neu'n rhannol gan gontractwyr neu mewn partneriaeth â sefydliad(au) eraill?**

Na

# CAM 4 - Ymdrin ag Effaith Negyddol neu Anghyfreithlon a Chryfhau'r Polisi neu'r Ymarfer

**13. Wrth ystyried cymesuredd, a yw'r polisi neu'r ymarfer yn achosi effaith gadarnhaol neu negyddol sylweddol neu'n creu canlyniadau anghyfartal?**

**Effaith Gadarnhaol Sylweddol:**
Pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, rhagwelir y byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy cyfartal wrth gael eu lleoli mewn ysgol amgen oherwydd bydd y dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sydd yn seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol, ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

Drwy weithredu'r cynnig, byddai dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn cael gwell amgylchfyd dysgu mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr yr un oedran, bydd yn sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u haddysg, ac yn caniatáu mynediad at fwy o weithgareddau perthnasol i'w lefel gallu. Byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

**Effaith Negyddol Sylweddol:**

Cydnabyddir y gall yr opsiwn sydd yn cael ei gynnig gael effaith ar sefydliad o fewn y gymuned a chael effaith ar gydlyniant cymunedol, a rhagwelir yr angen i liniaru hyn drwy feithrin cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r gymuned.

Yn sgil y sylwadau a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad, nodir hefyd effaith negyddol bosibl ar ddysgwyr bregus, gan gynnwys dysgwyr gydag anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion emosiynol/gymdeithasol, oherwydd pryderon ynghylch colli manteision amgylchedd dosbarthiadau bach a chefnogaeth bersonol, yn ogystal â'r heriau pontio i ysgol fwy, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu. Mewn ymateb i'r pryderon hyn, mae'r Cyngor yn nodi, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu, y byddai trefniadau pontio yn canolbwyntio ar anghenion unigol a llais y plentyn, gyda pholisïau cynhwysiant a chydraddoldeb ar waith yn yr ysgol amgen, pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

Yr ysgol (a'u Corff Llywodraethu) sydd yn gyfrifol am weithredu ei pholisi cydraddoldeb a bydd yr Awdurdod, drwy ei weithdrefnau cefnogi a monitro arferol yn sicrhau cydymffurfiaeth.

**14. Dylid egluro unrhyw effaith negyddol bwriadol a pham y credir fod cyfiawnhad dros weithredu fel hyn (er enghraifft, ar sail gwella cyfle cyfartal neu fagu perthnasau da rhwng y sawl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r sawl sydd ddim neu oherwydd cyfiawnhad gwrthrychol neu weithred gadarnhaol**

Na

**15. A fydd unrhyw un o'r effeithiau negyddol a nodwyd yn cyfrif fel gwahaniaethu anghyfreithlon ond eu bod yn anorfod (e.e. lleihau cyllid)?**

Ddim yn berthnasol.

**Noder y rheswm dros ddweud hynny a'r cyfiawnhad dros barhau**

Ddim yn berthnasol.

**16. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i hyrwyddo cyfle cyfartal; helpu i ddileu gwahaniaethu, aflonyddu neu erledigaeth anghyfreithlon a meithrin perthnasau da a chydlyniant cymunedol ehangach; fel yr ymdrinnir â nod wella yn Nyletswydd Gyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010?**

Yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, mae'r Cyngor wedi ystyried y sylwadau a dderbyniwyd ac wedi diweddaru'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010. Os bydd y cynnig yn mynd yn ei flaen, bydd yr effaith yn parhau i gael ei fonitro fel rhan o ddyletswyddau statudol parhaus y Cyngor.

**17. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol?**

Rhagwelir y byddai gweithredu'r cynnig yn lleihau yr anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol drwy sicrhau fod y dysgwyr yn cael mwy o brofiadau a mynediad at fwy o wasanaethau a gweithgareddau yn yr ysgol amgen. Byddai dysgwyr yn derbyn cyfleoedd fwy cyfartal gan y byddai'r dysgwyr yn derbyn profiadau dysgu sy'n seiliedig ar egwyddorion dysgu cenedlaethol, gydag amrywiaeth o arddulliau gan gynnwys gweithio mewn grwpiau torfol, grwpiau llai, gwaith partner ac yn unigol o fewn eu hystod oedran penodol ynghyd â gwersi sydd wedi'u gwahaniaethu'n briodol ar gyfer yr ystod oedran dan sylw.

Drwy weithredu'r cynnig, byddai dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn cael gwell amgylchfyd dysgu mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr yr un oedran, a byddai'n sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o'u haddysg. Byddai'r dysgwyr yn elwa o gael rhagor o gyfoedion oed-berthnasol mewn ysgol gyda mwy o ddysgwyr, fydd yn fodd o sicrhau profiadau addysgol ac allgyrsiol addas iddynt ynghyd â mynediad at ragor o weithgareddau allgyrsiol.

**18. Pa fesurau neu newidiadau eraill fyddai'n bosib eu cynnwys er mwyn cryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos fod sylw dyledus wedi ei roi i'r angen i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a lleihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gall y polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Rhagwelir y byddai'r cynnig yn cael effaith bositif ar y Gymraeg gan y byddai dysgwyr Ysgol Baladeulyn yn elwa o ragor o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gydag ystod ehangach o gyfoedion yn y dosbarth ac yn gymdeithasol. Byddai'r cynnig i gau Ysgol Baladeulyn a chynnig lle i ddysgwyr yn Ysgol Talysarn yn sicrhau parhad addysg cyfrwng Cymraeg, gyda data CYBLD Ionawr 2026 yn dangos bod 37% o ddysgwyr Ysgol Talysarn (o'i gymharu â 29% yn Ysgol Baladeulyn) yn siarad Cymraeg yn rhugl yn y cartref. Er bod y Cyngor yn cydnabod pryderon am effaith bosibl ar ddefnydd cymunedol y Gymraeg yn Nantlle, gellid ystyried mesurau lliniaru drwy ystyried opsiynau priodol ar gyfer ôl-ddefnydd yr adeilad yr ysgol pe byddai'r cynnig yn cael ei weithredu.

Pe byddai'r ysgol yn cau, gallai'r Awdurdod Lleol a Chorff Llywodraethol Talaerau ystyried dulliau i hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn gymdeithasol a chryfhau cysylltiadau cymunedol trwy gyfrwng gweithgareddau allgyrsiol a chymunedol.

**19. A oes digon o wybodaeth i lunio barn gytbwys a symud ymlaen?**

Oes

# CAM 5 - Penderfynu Mynd Ymlaen

**20. O ystyried yr wybodaeth sydd wedi'i chasglu yng Nghamau 1-4, ydi hi'n bosib symud ymlaen â'r polisi neu'r ymarfer ai peidio, ac os felly, ar ba sail? Dewis o:**

Parhau â'r polisi neu'r ymarfer yn ei ffurf bresennol.

# CAM 6 - Camau Gweithredu a Threfniadau i Fonitro Canlyniadau ac Adolygu Data

Mae'r broses AEC yn un barhaus ac nid yw yn dod i ben pan fo'r polisi/ymarfer a'r AEC wedi'u cytuno a'u gweithredu. Mae dyletswydd gyfreithiol benodol i fonitro effaith y polisïau/ymarferion ar gydraddoldeb ar sail barhaus i adnabod a yw'r canlyniadau wedi newid ers i chi gyflwyno neu addasu'r polisi neu ymarfer newydd hwn. Os nad yw'r data perthnasol gennych chi, dylech fod yn gweithredu i gywiro hyn yn eich cynllun gweithredu. I weld canllawiau EHRC ar gasglu data gallwch adolygu eu Fframwaith Fesur

**21. Pa gamau gweithredu a nodwyd yng Nghamau 1-5 neu unrhyw waith casglu data ychwanegol fydd o gymorth i fonitro'r polisi / ymarfer pan gaiff ei weithredu:**

| Gweithrediad | Dyddiadau | Amserlen | Cyfrifoldeb Arweiniol | Ychwanegu i'r Cynllun Gwasanaeth |
|---|---|---|---|---|
| - | - | - | - | - |

**22. Pa drefniadau i fonitro ac adolygu effaith barhaus y polisi neu'r ymarfer hwn fydd yn cael eu gweithredu, gan gynnwys amserlenni ar gyfer pryd y dylid ei adolygu'n ffurfiol:**

| **Trefniadau Monitro ac Adolygu** (gan gynnwys lle fydd y canlyniadau'n cael eu cofnodi) | **Amserlen ac Amlder** | **Cyfrifoldeb Arweiniol** | **Ychwanegu i'r cynllun Gwasanaeth** |
|---|---|---|---|
| Pe byddai'r cynnig yn cael ei wireddu, byddwn yn monitro effaith cau'r ysgol ac yn ymdrechu i gynorthwyo gydag unrhyw effaith negyddol all ddeillio o ganlyniad y polisi. | Parhaol | Adran Addysg | Na |